



**Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol**

Eich pensiwn: mae'n bryd i chi ddewis



Yn gweithio trwy ymgynghori â:



**Pension
wise**

Get to know your options

Backed by HM Government

- ➔ Ystyried ymddeol
- ➔ Penderfynu sut i gymryd eich incwm ymddeol
- ➔ Chwilio am yr incwm gorau

Mae'r Gwasanaeth Cynggori Ariannol yn annibynnol. Fe'i sefydlwyd gan y llywodraeth i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u harian trwy gynnig cyngor diduedd a di-dâl. Yn ogystal â chynghor ar bensiynau ac ymddeoliad, rydym yn cynnig gwybodaeth ar ystod eang o bynciau ariannol eraill.

Ewch i'n gwefan heddiw i gael cyngor, awgrymiadau ac offer i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio ar gyfer dyfodol gwell.

 moneyadvice.service.org.uk/cy

Cyngor diduedd am ddim

 ar-lein

 dros y ffôn

Pension Wise

Canllaw diduedd, am ddim – wedi'i gefnogi gan y llywodraeth

Mae Pension Wise yn wasanaeth diduedd ac am ddim a gefnogir gan y llywodraeth, sy'n eich helpu i ddeall beth yw'ch dewisiadau ar gyfer defnyddio eich cronfa bensiwn a sut maent yn gweithio.


pensionwise.gov.uk

Newid i Lwfans Blynyddol Prynu Arian

Adeg argraffu fersiwn cyfredol Eich pensiwn: mae'n bryd i chi ddewis, disgwyliad i'r Lwfans Blynyddol Prynu Arian (MPAA) ostwng o £10,000 y flwyddyn i £4,000 y flwyddyn, mewn grym o 6 Ebrill 2017.

Fodd bynnag, nid yw'r cynllun hwn wedi cael ei weithredu. Felly, mae lefel y MPAA ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol (2017-18) yn ansicr.

I'r bobl hynny a effeithiwyd gan yr MPAA, rydym yn awgrymu i beidio mynd dros y terfyn o £4,000, nes bo'r sefyllfa'n fwy eglur. Fel arall, siaradwch ag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir i gael cyngor ynghylch sut i barhau.

 I gael y **diweddaraf**, ewch i: moneyadvice.service.org.uk/newid-MPAA

Beth yw'r MPAA?

Fel arfer, gallwch gael gostyngiad yn y dreth ar gyfraniadau pensiwn o hyd at £40,000 y flwyddyn neu 100% o'ch cyflog. Gelwir hyn eich Lwfans Blynyddol. Fodd bynnag, os byddwch yn dechrau cymryd arian o bensiwn cyfraniadau diffiniedig, mae'r swm y gallwch ei dalu i mewn i bensiwn a pharhau i gael gostyngiadau yn y dreth yn gostwng. Gelwir hyn yn Lwfans Blynyddol Prynu Arian neu MPAA.

Fel canllaw sylfaenol, dyma'r prif sefyllfaoedd lle byddwch yn sbarduno'r MPAA:

- Os byddwch yn cymryd eich pensiwn cyfan fel cyfandaliad neu'n dechrau cymryd cyfandaliadau ad-hoc o'ch cronfa bensiwn
- Os byddwch yn rhoi arian eich cronfa bensiwn mewn i gynllun tynnu i lawr hyblyg ac yn dechrau cymryd incwm
- Os byddwch yn prynu blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad neu flwydd-dal hyblyg lle gallai eich incwm ostwng
- Os oes gennych chi gynllun tynnu i lawr wedi'i gapio cyn Ebrill 2015 ac yn dechrau cymryd taliadau sy'n uwch na'r cap
- Fel arfer, ni fydd yr MPAA yn cael ei sbarduno os:
- Ydych chi'n cymryd cyfandaliad arian parod di-dreth ac yn prynu blwydd-dal oes sy'n darparu incwm sicr am oes sydd naill ai'n parhau fel ag y mae neu'n cynyddu
- Byddwch yn cymryd cyfandaliad arian parod di-dreth ac yn rhoi eich cronfa bensiwn mewn i gynllun tynnu i lawr hyblyg, ond nad ydych yn cymryd unrhyw incwm ohono
- Byddwch yn cyfnewid cronfeydd pensiwn bach gwerth llai na £10,000 am arian
- Mae'r MPAA yn berthnasol i gyfraniadau at bensiynau cyfraniadau diffiniedig yn unig ac nid cynlluniau pensiwn budd-dal diffiniedig


Yma i'ch helpu

Mae'r canllaw hwn yn addas i chi os ydych yn cynllunio cael mynediad at gronfa bensiwn sydd wedi'i chronni o gyfraniadau i bensiwn personol neu bensiwn gwaith

Mae'n nodi'r opsiynau ar gyfer defnyddio eich cronfa/cronfeydd ar gyfer eich incwm ymddeoli a manteision ac unrhyw risgiau posibl y dewisiadau gwahanol.

Hefyd, mae'n dweud wrthy'ch am y camau pwysig y mae'n rhaid i chi eu cymryd, wrth i chi agosáu at eich ymddeoliad, neu pan fyddwch yn cynllunio cael mynediad at eich cronfa, a sut i gael canllaw am ddim gan Pension Wise – gwasanaeth diduedd sy'n cael ei gefnogi gan y llywodraeth a fydd yn eich helpu i ystyried eich opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn.

Nid yw'r canllaw hwn yn cwmpasu cynlluniau pensiwn lle bydd y pensiwn a gewch yn cael ei gyfrifo fel cyfran o'ch cyflog. Gelwir y rhain yn bensiynau â buddion wedi'u diffinio neu'n gynlluniau 'cyflog terfynol' neu'n gynlluniau 'cyfartaledd gyrfa'. Siaradwch gyda gweinydddeich cynllun pensiwn neu'ch cyflogwr i gael gwybod mwy.



Cynnwys

Dechrau arni – opsiynau ar gyfer eich ymddeoliad	3
Rhestr wirio agosáu at ymddeoliad	4
Pension Wise	6
Opsiynau ar gyfer defnyddio eich cronfa bensiwn	8
Gadael eich cynilion pensiwn lle maent	10
Defnyddio eich cronfa bensiwn i gael incwm sicr am oes	12
Defnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeol hyblyg	17
Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau	20
Cymryd eich cronfa bensiwn i gyd ar unwaith	22
Cymysgu eich opsiynau	24
Cipolwg ar opsiynau - nodweddion allweddol, treth a risgiau	25
Chwilio am y fargen orau a chael cyngor	28
Sut i adnabod twyll pensiynau a buddsoddiadau	31
Egluro jargon	33
Sut mae incwm eich pensiwn yn cael ei drethu	38
Cysylltiadau defnyddiol	40

Dechrau arni – opsiynau ar gyfer eich ymddeoliad

Mae newidiadau a gyflwynwyd o fis Ebrill 2015 yn rhoi rhyddid i chi ynglŷn â sut y gallwch gael mynediad at eich cynilion pensiwn os ydych chi'n 55 oed neu'n hŷn a bod gennych bensiwn sy'n seiliedig ar faint sydd wedi'i dalu i mewn i'ch cronfa (er enghraifft cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, prynu arian neu falans arian parod).

Gyda chymaint ohonom yn byw'n hwy, nid yw ymddeol bellach yn golygu eich bod ar ymyl clogwyn fel oedd y gred yn y gorffennol. P'un a ydych yn bwriadu ymddeol yn llwyr, torri'n ôl ar eich oriau yn raddol neu barhau i weithio am gyfnod hwy, gallwch deilwra pryd a sut i ddefnyddio eich cynilion pensiwn – a phryd y byddwch yn rhoi'r gorau i gynilo – i gyd-fynd â'ch taith ymddeol benodol chi.

Fodd bynnag, daw mwy o gyfrifoldeb yn sgil mwy o ryddid - i wneud yn siŵr bod gennych ddigon i fyw arno drwy eich ymddeoliad, a'ch bod yn gallu darparu ar gyfer unrhyw ddibynnyddion ar ôl i chi farw.

Gyda llawer o bobl yn byw am 30 mlynedd neu'n fwy ar ôl ymddeol, mae deall y dewisiadau sydd gennych ar gael droi at eich cronfa bensiwn – a gwaith cynllunio gofalus sy'n seiliedig ar eich amgylchiadau ariannol a phersonol – yn hollbwysig er mwyn gwneud y gorau o'r hyblygrwydd newydd ac osgoi camgymeriadau costus, biliau treth mawr neu redeg allan o arian.

Bydd angen i chi edrych ar faint o arian sydd gennych yn awr, unrhyw fenthyciadau neu ddyledion, a pha incwm fydd arnoch ei angen i gefnogi'r ffordd o fyw rydych ei heisiau ar ôl ymddeol, gan gynnwys talu am gostau annisgwyl wrth i chi fynd yn hŷn, megis costau gofal hirdymor.

Bydd angen i chi ystyried hefyd sut bydd eich dewisiadau yn effeithio ar eich treth a'ch hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth – nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai eich dewis incwm ymddeol effeithio ar y ffordd mae eich awdurdod lleol yn asesu beth y gallwch ei fforddio i dalu am ofal hirdymor os bydd ei angen arnoch.

Bydd eich iechyd a'ch disgwyliad oes chi – ac unrhyw bartner neu ddibynnyddion – hefyd yn dylanwadu ar ba ddewisiadau sydd orau i chi.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio y mae'r ffactorau hyn yn bwysig a bydd yn eich helpu i chi eu hystyried yn ofalus. Bydd hefyd yn eich helpu i baratoi ar gyfer apwyntiad Pensiwn Wise rhad ac am ddim – sydd ar gael o 50 oed ac yn cael ei esbonio ar dudalen 6.

Ni ddylech ruthro i wneud penderfyniad – dylech dreulio amser yn deall eich opsiynau ac yna gofyn am gymorth.

Cofiwch, bydd eich penderfyniad yn awr yn effeithio ar eich incwm ymddeol am weddill eich bywyd.

Rhestr wirio agosáu at ymddeoliad

Mae'r rhestr wirio hon yn berthnasol hefyd os ydych yn ystyried cymryd rhywfaint o'ch cronfa bensiwn yn gynnar neu ymddeol yn gynnar (os felly, darllenwch 'eich dyddiad ymddeol' fel 'y dyddiad yr ydych yn bwriadu cael mynediad i'ch cronfa bensiwn').

Pedwar i chwe mis cyn eich dyddiad ymddeol*

P'un a ydych yn ystyried ymddeol yn llwyr, yn raddol neu hyd yn oed os ydych yn gohirio eich ymddeoliad, mae'n bwysig eich bod yn gwirio gwaith papur eich pensiwn.

Yn benodol, mae angen i chi wybod am unrhyw reolau, cyfyngiadau, gwarantau neu daliadau a allai effeithio ar pryd y gallwch ddechrau derbyn eich pensiwn neu eich penderfyniadau wrth benderfynu ar sut i ddefnyddio eich cronfa bensiwn.

Os oes gennych fwy nac un pensiwn, nawr yw'r amser i dracio pob un ohonynt. Mae'n gwneud synnwyr eu cyfuno i gael pensiwn gwell pan fyddwch yn penderfynu pa fath o gynnyrch/gynhyrchion incwm ymddeoliad yr ydych ei eisïau. Neu, efallai y byddwch yn canfod bod gan rai ohonynt warantau na allwch eu cael unrhywle arall ac mae'n well eu gadael lle maen nhw. Y naill ffordd neu'r llall, dylech eu holrhain a chanfod beth gall pob un ei gynnig i chi.

*Os ydych yn aelod o bensiwn gwaith, bydd eich dyddiad ymddeol yn cael ei bennu fel arfer gan reolau'r cynllun. Os oes gennych bensiwn personol, y dyddiad ymddeol fydd yr un y byddwch chi'n ei ddewis wrth ei drefnu.





Sut i fynd ar drywydd pensiynau coll.

Os ydych wedi colli golwg ar bensiwn, mae'r Gwasanaeth Orlhain Pensiynau yn wasanaeth am ddim a all eich helpu i ddod o hyd i gyfeiriad eich hen ddarparwr pensiwn ar-lein, dros y ffôn neu drwy ysgrifennu atynt. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn **gov.uk/find-pension-contact-details**. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 40.

Beth mae angen i chi ei wneud yn awr:

- ✓ Darllenwch y canllaw hwn.
- ✓ Edrychwch beth yw eich dyddiad ymddeol a maint eich cronfa bensiwn - a fydd ar eich cyfriflenni pensiwn.
- ✓ Darllenwch yr holl wybodaeth a anfonwyd gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn - yn cynnwys yr opsiynau y gallant eu cynnig i chi am gymryd eich pensiwn. Gofynnwch iddynt esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.
- ✓ Edrychwch i weld beth yw'r dyddiadau pwysig – os ydych eisïau newid eich dyddiad ymddeol, gofynnwch i'ch cynllun pensiwn neu ddarparwr pensiwn a yw hynny'n bosibl a gofynnwch pa ffioedd sy'n berthnasol ac a oes unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer rhoi gwybod iddynt.
- ✓ Edrychwch i weld a yw eich cynllun pensiwn yn gwarantu i dalu lefel incwm benodol - a elwir yn gyfradd blwydd-dal gwarantedig neu'n sicrwydd o isafswm incwm.

Os ydyw, mae'n debygol o warantu incwm ymddeol cystadleuol iawn a fydd yn talu nes y byddwch yn marw a dylech feddwl yn ofalus iawn cyn rhoi'r gorau i hyn. Mae hyn yn rhywbeth y byddwch eisiau ei drafod yn eich apwyntiad gyda Pension Wise neu gydag ymgynghorydd ariannol. Rydym yn esbonio cynhyrchion incwm gwarantedig ar dudalen 12.

-  Edrychwch i weld a oes unrhyw amodau, nodweddion arbennig, gwarantau neu daliadau eraill a allai effeithio pryd a sut y byddwch yn cymryd eich pensiwn neu a fydd yn berthnasol os byddwch yn ei drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall.
-  Ewch i offeryn opsiynau incwm ymddeoliad Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
 moneyadvice.service.org.uk/cy/ymddeoliad
i gael dealltwriaeth lefel uchel o'ch dewisiadau ar gyfer defnyddio eich pensiwn.
-  Os yw eich cynllun pensiwn yn cynnig opsiynau nad ydynt wedi'u trafod yn y canllaw hwn (megis incwm sy'n uniongyrchol daladwy o'ch cynllun) yna efallai y byddwch yn dymuno trafod y rhain gyda chynghorydd ariannol.

Gwybodaeth arall y dylech ddechrau ei chasglu ynghyd

Bydd angen i chi wybod faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallwch ddisgwyl ei dderbyn – ewch i gov.uk/state-pension-statement. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 41.

Mae angen i chi hefyd gasglu gwybodaeth ynghyd am unrhyw bensiwn sy'n seiliedig ar eich cyflog y mae gennych hawl iddo, crynodeb o unrhyw incwm arall neu fudd-daliadau eraill y Wladwriaeth yr ydych yn eu derbyn ac unrhyw gynilion, benthyciadau neu ddyledion sydd gennych.

Cael arweiniad neu gyngor ariannol

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol, trefnwch apwyntiad Pensiwn Wise rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddeall eich opsiynau, ac yn ddelfrydol dilynnwch hyn drwy siarad ag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir a fydd yn gallu argymhell pa opsiwn sydd orau i chi yn seiliedig ar eich anghenion a'ch amgylchiadau.

I gael gwybodaeth bellach am Pension Wise gweler tudalen 6. Gallwch drefnu apwyntiad pan fyddwch yn 50 oed, beth bynnag yw eich dyddiad ymddeol bwriadedig.

Gweler tudalen 29 i gael gwybod ynghylch cael cyngor ariannol, gan gynnwys cymorth treth newydd sydd ar gael i'ch helpu chi dalu amdano.

Byddwch yn wiliadwrus o dwyll

Wrth i chi agosáu at eich ymddeoliad, byddwch yn wiliadwrus o gwmnïau sy'n honni eu bod yn ymgynghorwyr wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth neu sy'n ceisio eich darbwylllo i gymryd arian o'ch pensiwn yn gynnar. I gael gwybod sut i adnabod a rhoi gwybod am dwyll pensiwn ewch i dudalen 31.

Pension Wise

Gwasanaeth diduedd ac am ddim gan y llywodraeth yw Pension Wise sy'n eich helpu i ddeall beth allwch ei wneud gyda'r arian yn eich pensiwn.

Mae'n cynnig apwyntiadau cyngor am ddim dros y ffôn a/neu wyneb yn wyneb i'ch helpu chi i ddeall eich opsiynau a'ch cefnogi i wneud y penderfyniad cywir. Beth bynnag yw eich dyddiad ymddeol bwriadedig, gallwch drefnu apwyntiad os ydych chi'n 50 oed neu'n hŷn.

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar wefan Pension Wise yn **pensionwise.gov.uk** am eich opsiynau ar gyfer cymryd eich pensiwn, gan gynnwys deall goblygiadau treth y gwahanol ddewisiadau.

Bydd Pension Wise yn darparu arweiniad ar bensiynau cyfraniadau wedi'u diffinio. Nid yw'n darparu arweiniad ar bensiynau buddion wedi'u diffinio, sy'n cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfa'.

Gall Pension Wise eich helpu i:

- ddeall y pethau cywir y dylech feddwl amdanynt wrth ystyried eich dewisiadau, megis eich cynlluniau i barhau i weithio, eich amgylchiadau personol ac ariannol, a gadael arian ar ôl i chi farw.
- ddeall yr opsiynau gwahanol ar gyfer cael gafael ar eich cronfa/cronfeydd pensiwn, a manteision ac anfanteision posibl pob un.
- deall goblygiadau treth pob dewis.

Awgrym Defnyddiol

➔ Waeth pa mor fach yw eich cronfa bensiwn, rydym yn eich annog i fanteisio ar Pension Wise i'ch helpu i ddeall beth yw eich dewisiadau ar gyfer defnyddio eich cronfa bensiwn.

Mae'r gwasanaeth yn ddiduedd ac ni fydd yn argymhell cwmnïau nac yn dweud wrthyh sut i ddefnyddio eich cronfa bensiwn neu fuddsoddi eich arian.

Ar ôl derbyn arweiniad, rydym yn argymhell eich bod yn chwilio am y fargen orau ac yn ystyried cael cyngor ariannol pan fyddwch ei angen. Gweler *Chwilio am y fargen orau a chael cyngor* ar dudalen 28.

Sut i gael eich canllaw Pension Wise am ddim

Rydym yn argymhell eich bod yn mynd i wefan Pension Wise yn **pensionwise.gov.uk** i weld beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig a dechrau deall yr opsiynau sydd ar gael i chi.

I drefnu apwyntiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ewch i wefan Pension Wise neu ffoniwch **0800 138 3944**.

Paratoi ar gyfer apwyntiad

I gael y budd mwyaf o apwyntiad Pension Wise, byddai'n ddefnyddiol i chi gael:

- gwerth eich cronfa/cronfeydd pensiwn ac a oes unrhyw warantau neu nodweddion arbennig sy'n berthnasol i'ch cronfa – edrychwch ar gyfriflen eich pensiwn neu gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr. Os oes gennych fwy nag un gronfa pensiwn, cofiwch gasglu gwybodaeth am bob un ohonynt – gweler tudalen 4 ar sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Olrhain Pensiynau, a fydd yn gallu helpu dod o hyd i gyfeiriad hen ddarparwr pensiwn os ydych wedi colli golwg ar pensiwn.
- amcangyfrif o faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallech ei gael – i gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **gov.uk/check-state-pension** Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 41.
- nodiadau ar eich amgylchiadau ariannol, megis eich cyflog ac unrhyw gynilion neu ddyledion perthnasol, a gwerth unrhyw fudd-daliadau'r Wladwriaeth yr ydych yn eu cael ar hyn o bryd - bydd hyn yn helpu i hysbysu cyd-destun eich penderfyniad pensiwn.

Hefyd, byddwch yn cael eich holi am unrhyw gyflyrau meddygol neu iechyd a allai effeithio ar eich disgwyliad oes ac a allai olygu y byddwch yn cael incwm gwell ar ôl ymddeol.

Gwefan Pensiwn Wise
pensionwise.gov.uk

Ar ôl eich apwyntiad


Unwaith y bydd Pensiwn Wise wedi esbonio'r opsiynau sydd ar gael i chi, rydym yn argymhell eich bod yn siarad ag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad. Os ydych yn prynu cynnyrch incwm ymddeol mae'n hefyd yn hanfodol eich bod yn chwilio am y fargen orau a gall ymgynghorydd ariannol eich helpu i wneud hyn.

Mae cynghorwyr ariannol yn codi ffi ond mae eu harbenigedd yn cynnig tawelwch meddwl i chi a gyda chyngor ariannol a reoleiddir mae gennych ddiogelwch rhag ofn y bydd cynnyrch yn anaddas i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am chwilio am y fargen orau a chael cyngor, gweler tudalen 28.

I gael gwybod am gymorth treth newydd y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i dalu am gyngor ariannol a reoleiddir gweler tudalen 30.

Os ydych yn hyderus ynglŷn â'r opsiwn a'r cynnyrch sy'n addas i chi, gallwch fynd yn uniongyrchol at ddarparwr cynnyrch, ond sicrhewch eich bod chi'n chwilio'n drylwyr am y fargen orau yn y lle cyntaf. Peidiwch â chymryd y cynnyrch cyntaf a gynigir i chi gan eich darparwr presennol.



Opsiynau ar gyfer defnyddio eich cronfa bensiwn

Mae gennych ddewis o gael mynediad i'ch cronfa bensiwn drwy un o'r opsiynau isod, neu gyfuniad ohonynt. Yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau personol, gallai rhai neu bob un o'r opsiynau hyn fod yn addas i chi.

Dyma eich prif opsiynau:

Gadewch eich cynilion pensiwn lle maent – a'u cymryd yn nes ymlaen. Gweler tudalen 10.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i gael incwm sicr am oes – a elwir yn flwydd-dal oes. Mae'r incwm yn drethadwy, ond gallwch ddewis cymryd hyd at 25% o'ch cronfa (weithiau mwy gyda rhai polisïau) fel un cyfandaliad di-dreth o'r cychwyn cyntaf. Gweler tudalen 12.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeol hyblyg – Cymerwch y swm y mae gennych yr hawl i'w gymryd fel cyfandaliad di-dreth (fel arfer hyd at 25%) a defnyddiwch y gweddill i ddarparu incwm trethadwy rheolaidd. Gweler tudalen 17.

Cymerwch nifer o gyfandaliadau – Bydd y 25% cyntaf o bob taliad arian parod a godir o'ch cronfa'n ddi-dreth fel. Bydd y gweddill yn cael ei drethu. Gweler tudalen 20.


Cymerwch eich cronfa bensiwn i gyd ar unwaith – Bydd y 25% cyntaf yn ddi-dreth fel arfer a bydd y gweddill yn drethadwy. Gweler tudalen 23.

Cymysgwch eich opsiynau – dewiswch unrhyw gyfuniad o'r uchod, gan ddefnyddio gwahanol rannau o'ch cronfa neu gronfeydd gwahanol. Gweler tudalen 25.

Mae'n rhaid eich bod chi wedi cyrraedd yr isafswm oedran pensiwn arferol i gael mynediad i'ch cronfa bensiwn – 55 oed ar hyn o bryd (neu'n gynharach os oes gennych salwch neu os oes gennych oedran ymddeol wedi'i ddiogelu).

Pwyntiau allweddol

- ➔ Ni fydd pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig pob opsiwn ac nid yw pob un ohonynt yn caniatáu mynediad yn 55 oed.
- ➔ Efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall er mwyn cael mynediad i'r opsiwn incwm ymddeoliad yr ydych ei eisiau.
- ➔ Hyd yn oed os nad yw eich cynllun neu ddarparwr yn cynnig opsiwn, dylech chwilio am y fargen orau – gweler tudalen 28.



Derbyniwch ganllawiau am ddim a chymerwch gyngor ariannol

Daw cyfrifoldeb yn sgil rhyddid i ddewis. Mae llawer i'w ystyried wrth geisio datrys pa opsiwn neu gyfuniad o opsiynau fydd yn darparu incwm dibynadwy ac effeithlon o ran treth i chi ac unrhyw ddibynyddion drwy eich ymddeoliad.

Am y rheswm hwn, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn gofyn am arweiniad am ddim gan Pension Wise ac yn siarad ag ymynghorydd ariannol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Mae rhagor o fanylion ar dudalennau 6 a 29.

Gallai eich dewisiadau effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth - nawr ac yn y dyfodol. Gallwch gael gwybod am effaith incwm eich pensiwn neu gynilion ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn **GOV.UK**.

Gadael eich cynilion pensiwn lle maen nhw

Efallai y gallwch ohirio cael mynediad i'ch cronfa bensiwn y tu hwnt i'r oedran yr ydych wedi cytuno arno gyda'ch darparwr pensiwn neu oed ymddeol eich cynllun. Nid yw cyrraedd 55 oed yn ddyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniad. Os byddwch yn osgoi ei gymryd yn gynnar neu hyd yn oed yn gohirio ei gymryd, bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i'ch cronfa bensiwn dyfu.

Sut mae'n gweithio

Bydd eich cronfa'n parhau i dyfu'n ddi-dreth nes y byddwch ei angen – a gallai ddarparu mwy o incwm i chi pan fyddwch yn dechrau cymryd eich arian.

Gallwch chi (a'ch cyflogwr) barhau i wneud cyfraniadau, fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran faint y gallwch ei gynilo bob blwyddyn a thros oes a pharhau i dderbyn gostyngiad yn y dreth.

Yn y rhan fwyaf o achosion gallwch gael gostyngiad yn y dreth, gan gynnwys unrhyw gyfraniadau gan y cyflogwr, ar yr isaf o 100% o'ch enillion trethadwy neu hyd at £40,000 bob blwyddyn (blwyddyn dreth 2017-18) nes y byddwch yn 75 oed. Fodd bynnag, os ydych yn ennill incwm uchel, mae'r terfyn o ran faint o arian di-dreth y gallwch ei gronni yn eich pensiwn mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar eich 'incwm wedi'i addasu'. I gael rhagor o wybodaeth, gweler *Lwfans Blynyddol* ar dudalen 33 a *Lwfans Blynyddol wedi Tapro* ar dudalen 39.

Os nad ydych yn talu Treth Incwm, gallwch barhau i gael gostyngiad yn y dreth ar hyd at £3,600 o gynilion pensiwn bob blwyddyn nes y byddwch yn 75 oed.

Materion i'w hystyried

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud ymholiadau gyda'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn i weld a oes unrhyw gyfyngiadau neu ffioedd am newid eich dyddiad ymddeol, ac yna'r broses a'r terfyn amser ar gyfer dweud wrthynt.

Gofynnwch iddynt a oes unrhyw gostau am adael eich potyn fel y mae – mae rhai darparwyr yn codi ffi weinyddol am barhau i reoli eich pensiwn.

Hefyd, gwnewch yn siŵr na fyddwch yn colli unrhyw warantau incwm gwerthfawr, er enghraifft, cyfradd blwydd-dal a warrantir - os byddwch yn gohirio eich dyddiad ymddeol.

Gallai'r arian rydych wedi'i gynilo yn eich cronfa bensiwn barhau i dyfu, ond gallai ostwng mewn gwerth hefyd, fel gydag unrhyw fuddsoddiad. Cofiwch adolygu lle mae eich cronfa wedi'i buddsoddi wrth i chi agosáu at yr amser yr ydych yn dymuno ymddeol a threfnu i'w symud i gronfeydd gyda llai o risg os bydd angen.

Po hiraf y byddwch yn oedi, yr uchaf fydd eich incwm ymddeol posibl, fodd bynnag, cofiwch y gallai hyn effeithio ar eich treth yn y dyfodol – a'ch hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth. Gallwch gael gwybodaeth am effaith eich incwm pensiwn neu gynilion ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn **GOV.UK**.

Mae'r Lwfans Oes (y swm uchaf y gallwch chi ac unrhyw gyflogwr ei gronni mewn pensiwn ar gyfer eich oes wrth barhau i gael gostyngiad treth) yn parhau i fod yn £ 1m ar gyfer 2017-18. Os yw hyn yn debygol o effeithio arnoch chi, rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor ariannol. Gweler tudalen 35 i gael rhagor o fanylion.

Os ydych yn dymuno i'ch cronfa barhau i dderbyn buddsoddiadau y tu hwnt i 75 oed, bydd angen i chi gadarnhau bod eich cynllun neu ddarparwr pensiwn yn caniatáu hyn. Os nad ydynt, efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall a fydd yn caniatáu hynny.

Ni fydd pob cynllun a darparwr pensiwn yn caniatáu i chi ohirio. Os ydych am ohirio ond nad oes gennych y dewis hwn, chwiliwch am y fargen orau, ac yn ddefnyddiol, ewch i gael cyngor ariannol cyn symud eich pensiwn. Gweler tudalen 28 am fanylion ar sut i wneud hyn.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch yn marw, bydd unrhyw gronfeydd pensiwn heb eu defnyddio fel arfer yn cwmpo y tu allan i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant a gellir eu trosglwyddo i unrhyw fuddiolwr enwebedig. Mae'r rheolau Treth Incwm ar gyfer cael mynediad ar y dde. Yn y naill achos neu'r llall, bydd yr arian yn parhau i dyfu'n ddi-dreth tra bydd yn dal i dderbyn buddsoddiadau.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- Bydd eich cronfa bensiwn yn trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig yr amod bod yr arian yn cael ei dalu o fewn dwy flynedd o roi gwybod i'r darparwr am eich marwolaeth. Os yw'n cael ei dalu ar ôl dwy flynedd, bydd yr arian yn cael ei ychwanegu at incwm arall y buddiolwr ac yn cael ei drethu yn ôl y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu'n hŷn:

- Pan fydd yr arian yn cael ei gymryd allan (cyfandaliad neu incwm) bydd yn cael ei ychwanegu at incwm y buddiolwr ac yn cael ei dreth ar y gyfradd/cyfraddau Treth Incwm priodol.
- Fodd bynnag, os nad yw'r buddiolwr yn unigolyn ond yn gwmni neu'n ymddiriedolaeth er enghraifft, bydd unrhyw gyfandaliad yn cael ei drethu ar 45%.

Ffioedd Lwfans Oes:

Os bydd cyfanswm gwerth eich holl gynilion pensiwn pan fyddwch yn marw yn uwch na'r Lwfans Oes, (sef £1 filiwn ar hyn o bryd ar gyfer blwyddyn treth 2017-18), bydd ffioedd treth pellach yn daladwy gan y buddiolwr. I gael rhagor o wybodaeth am y Lwfans Oes, gweler tudalen 35.

Nid oes unrhyw frys i chi gymryd eich pensiwn os nad oes angen i chi, ond gwnewch ymholiadau i weld a oes unrhyw gyfyngiadau perthnasol neu a fyddwch yn colli buddion os byddwch yn ei gymryd yn hwyrach.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i gael incwm sicr am oes

Mae incwm sicr am oes - a elwir yn flwydd-dal oes - yn darparu sicrwydd i chi y bydd yr arian yn para tra byddwch byw.

Sut mae'n gweithio

Fel arfer, gallwch ddewis cymryd hyd at 25% (chwarter) o'ch cronfa fel un cyfandaliad di-dreth o'r cychwyn cyntaf. Gall rhai polisïau hŷn ganiatáu i gymryd dros 25% yn ddi-dreth - holwch eich darparwr pensiwn.

Fel rheol, yr hynaf y byddwch chi'n cymryd cynnyrch incwm oes a warantir, y mwya'i gyd o incwm y cewch chi.

Gallwch ddewis derbyn eich incwm yn fisol, bob chwarter, bob hanner blwyddyn neu bob blwyddyn, yn dibynnu ar y cynllun neu'r darparwr. Mae'r math hwn o incwm yn drethadwy. Gweler Y dreth y byddwch yn ei thalu ar dudalen 15.

Beth sy'n cael ei gynnwys?

Mae cynhyrchion incwm oes a warantir yn cynnwys:

- blwydd-daliadau oes sylfaenol
- blwydd-daliadau wedi'u cysylltu â buddsoddiadau

Cyn prynu incwm sicr am oes, mae'n bwysig eich bod chin dewis y math o gynnyrch a'r nodweddion cynnyrch a fydd yn gweddu orau i'ch amgylchiadau personol chi, eich disgwyliad oes chi a'ch agwedd at risg. Gall eich dewisiadau wneud gwahaniaeth mawr i faint o incwm a gewch.

Blwydd-daliadau oes sylfaenol

Mae blwydd-daliadau oes sylfaenol yn cynnig nifer o opsiynau incwm gwahanol, sydd wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag amgylchiadau personol gwahanol.

Mae angen i chi benderfynu a ydych eisiau:

- un sy'n darparu incwm sicr i chi yn unig a bydd yn dod i ben pan fyddwch yn marw – **blwydd-dal oes unigol**, neu un sydd hefyd yn darparu incwm am oes i ddibynnydd neu fuddiolwr enwebedig arall ar ôl i chi farw – **blwydd-dal oes ar y cyd** (mae fel arfer yn darparu incwm rheolaidd is ac fe'i cynlluniwyd i dalu incwm am gyfnod hwy)
- taliadau i barhau i fuddiolwr enwebedig am nifer benodol o flynyddoedd (er enghraifft 10 mlynedd) o'r amser y bydd yr incwm sicr yn dechrau, rhag ofn y byddwch yn marw'n annisgwyl o gynnar - a elwir yn **gyfnod a warantir**. Er enghraifft, os byddwch yn dewis cyfnod gwarantedig o 10 mlynedd ac yn marw ar ôl dwy flynedd, bydd y taliadau i fuddiolwr enwebedig yn parhau am wyth mlynedd.
- taliadau sefydlog ar yr un gyfradd ar hyd eich oes – blwydd-dal sefydlog, neu daliadau is na **blwydd-dal sefydlog** i ddechrau a fydd ond yn cynyddu dros amser yn ôl symiau penodol – **blwydd-dal cynyddol** – neu'n unol â chwyddiant – **blwydd-dal sy'n gysylltiedig â chwyddiant**.

■ **diogelu gwerth** - opsiwn a ddefnyddir yn llai cyffredin ac mae'n debygol o leihau swm yr incwm a gewch, ond fe'i cynlluniwyd i dalu gwerth y gronfa a ddefnyddiwyd i brynu'r incwm oes sicr i'ch buddiolwr enwebedig, llai'r incwm a dalwyd eisoes pan fyddwch yn marw.

Efallai y gallwch gyfuno rhai o'r opsiynau hyn. Mae eich dewisiadau yn effeithio ar faint o incwm a gewch.

Gallai'r lle y disgwylir i chi fyw ar ôl ymddeol effeithio hefyd ar faint o incwm a gewch.

Os ydych yn ysmegu, ar feddyginiaeth neu os oes gennych gyflwr meddygol, efallai y byddwch yn gymwys i gael 'gwell' incwm sicr (a elwir hefyd yn flwydd-dal '**gwell**', '**diffygiol**', '**ffordd o fyw**' neu flwydd-dâl '**gwarantedig**'). Mae'r rhain yn dueddol o dalu incwm uwch oherwydd disgwylir iddynt dalu allan dros gyfnod llai o amser. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau iechyd a ffordd o fyw a'u hateb yn onest.

Blwydd-daliadau wedi'u cysylltu â buddsoddiadau

Os ydych yn barod i gymryd mwy o risg yn gyfnewid am incwm a allai fod yn uwch, gallech ddewis cael incwm sy'n codi ac yn disgyn yn unol â gwerth y buddsoddiadau a ddewiswch pan fyddwch yn prynu eich cynnyrch. Adwaenir hyn yn flwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiadau. Gyda'r math hwn o flwydd-dal, gallech dderbyn rhagor yn y tymor hir na gyda blwydd-dal sylfaenol, ond gall eich incwm ddisgyn hefyd.

Mae nifer o flwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau yn sicrhau isafswm incwm os bydd perfformiad y gronfa yn wan.

Gyda blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau, gallwch hefyd gael pensiwn dibynnydd, cyfnodau sicr, diogelu gwerth a chyfraddau uwch os oes gennych ddisgwyliad oes byr oherwydd salwch neu ffordd o fyw.

Mae rhai blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau yn caniatáu i chi newid eich opsiynau buddsoddi neu ganiatáu i chi gymryd taliadau is yn nes ymlaen.

Pwyntiau allweddol

- ➔ Nid oes rhaid i chi brynu cynnyrch incwm sicr eich darparwr presennol – mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael incwm ymddeol gwell gan ddarparwr gwahanol.
- ➔ Cymerwch eich amser i chwilio am y fargen orau.
- ➔ Gwnewch ymholiadau i weld a allech gael incwm gwell oherwydd eich iechyd neu ffordd o fyw – a elwir yn 'flwydd-dal uwch'.
- ➔ Gofynnwch a all eich darparwr gynnig 'blwydd-dal sicr' – os ydynt, maent yn debygol o gynnig incwm cystadleuol iawn, ac efallai na fyddwch eisiau ei golli.

Yr hyn i'w hystyried cyn ymuno

Ar ôl i chi brynu cynnyrch incwm sicr (blwydd-dal oes) ychydig iawn o amser sydd gennych i newid eich meddwl - ac ar ôl hynny ni allwch newid y penderfyniad, felly dylech ystyried hyn yn ofalus cyn ymrwymo eich hun. Fodd bynnag, maenn nhw'n darparu incwm rheolaidd am oes, felly nid oes perygl y bydd eich arian yn dod i ben.

Os ydych yn ansicr ynglŷn ag ymrwymo i gynnyrch incwm oes sicr yn awr, gallech ddefnyddio opsiwn arall i ddechrau a phrynu cynnyrch sicr yn nes ymlaen pan fyddwch yn debygol o gael incwm uwch oherwydd eich oedran.

Os oes gennych ddisgwyliad oes cyfyngedig iawn, efallai na fydd cynnyrch incwm oes sicr yn opsiwn addas i chi.

Os yw'r darparwr yn cynnig blwydd-dal oes sylfaenol i chi gyda 'chyfradd blwydd-dal sicr', gallai fod yn anodd curo hyn yn y farchnad – fodd bynnag dylech chwilio am y fargen orau. Gweler tudalen 28.

Meddyliwch yn ofalus a oes angen i chi ddarparu incwm i'ch partner neu ddibynnydd arall pan fyddwch yn marw.

Dylech ystyried a ddylech gymryd cynnyrch sy'n darparu incwm cynyddol. Gall chwyddiant (y cynnydd cyffredinol ym mhris nwyddau a gwasanaethau dros amser) leihau eich safon byw yn sylweddol dros amser.

Mae blwydd-daliadau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau yn cynnig y cyfle o

incwm uwch – ond dim ond drwy gymryd risg ychwanegol. Gallai eich incwm leihau os nad yw'r gronfa yn perfformio yn ôl y disgwyl. Os ydych yn ystyried yr opsiwn hwn, edrychwch ar beth mae eich darparwr yn gallu ei gynnig yna gofynnwch am gyngor ariannol. Gweler tudalen 29.

Os byddwch yn prynu incwm sicr gydag arian o gronfa bensiwn rydych chi eisoes wedi'i ddefnyddio ar gyfer opsiwn incwm arall (e.e. i ddarparu incwm ymddeol hyblyg – gweler tudalen 17), ni allwch gymryd cyfandaliad di-dreth arall – hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio â chymryd cyfandaliad di-dreth gyda'r opsiwn arall.

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig cynhyrchion incwm oes sicr. Efallai y bydd rhai ohonynt ond yn cynnig un math, neu'n cynnig prynu un ar eich rhan. Beth bynnag yw'r achos, dylech chwilio a chymharu cyn penderfynu – rydych yn debygol o gael incwm gwell nag aros gyda'ch darparwr presennol. Gweler tudalen 28.

Y dreth y byddwch yn ei thalu

Bydd yn rhaid i chi dalu treth ar yr incwm a gewch, yn yr un ffordd ag y byddwch yn talu treth ar eich cyflog. Bydd faint y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd Treth Incwm sy'n berthnasol i chi. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Bydd eich darparwr yn didynnu treth o'ch incwm cyn i chi ei dderbyn – a elwir yn TWE (Talu Wrth Ennill). Oherwydd na fyddant yn gwybod beth yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Mae hyn yn golygu y gallech dalu gormod o dreth i ddechrau a bydd angen adhawlio'r arian - neu efallai y bydd mwy o dreth yn ddyledus os bydd gennych ffynonellau incwm eraill.

Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn yn fwy nac £1 filiwn (blwyddyn dreth 2017-18) ac nad yw'r cynilion hyn wedi'u hasesu eto yn erbyn y Lwfans Oes, efallai y bydd ffioedd treth pellach yn cael berthnasol pan fyddwch yn cael mynediad i'ch cronfa pensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 35.

Gostyngiad yn y dreth ar gynilion pensiwn yn y dyfodol

Ar ôl prynu cynnyrch incwm sicr, gallwch barhau i gael gostyngiad yn y dreth yn y rhan fwyaf o achosion ar gynilion pensiwn hyd at y lwfans Blynnyddol o £40,000 (2017-18).

Fodd bynnag, os byddwch yn prynu blwydd-dal oes lle gallai'r incwm a gewch ddisgyn, megis blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad, caiff uchafswm yr arbedion pensiwn trwy gyfraniadau diffinedig yn y dyfodol y gellir eu gwneud mewn blwyddyn sy'n gymwys am ostyngiad yn y dreth gael eu cyfyngu i'r isaf o £ 4,000 (Lwfans Blynnyddol Prynu Arian) neu 100% o'ch enillion trethadwy. Os ydych eisïau parhau i gynilo i pensiwn efallai nad yr opsiwn hwn yw'r un cywir i chi.

Gweler 'Newid i MPAA' ar ddechrau'r canllaw hwn.

Budd-daliadau'r wladwriaeth.

Gallai'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu gan eich cynnyrch incwm sicr effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn awr neu'n nes ymlaen yn eich bywyd. I ganfod sut y gall incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i **GOV.UK**.

I gael gwybod mwy am y gwahanol fathau o gynnyrch a nodweddion incwm sicr, gan gynnwys enghreifftiau o sut mae gwahanol ddewisiadau yn effeithio ar eich incwm, gweler ein canllawiau a'n hoffer ar-lein yn

 moneyadvice.service.org.uk/ymddeoliad.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Os oes gennych un cynnyrch incwm sicr am oes a dim nodweddion eraill, bydd eich pensiwn yn dod i ben pan fyddwch yn marw. Fel arall, mae rheolau treth yn amrywio yn dibynnu ar eich oedran fel y dangys isod.

Os byddwch yn marw cyn eich bod yn 75 oed:

- Bydd incwm o **gynnyrch incwm sicr ar y cyd** yn cael ei dalu i'ch dibynnydd neu fuddiolwr enwebedig arall, yn ddi-dreth am weddill eu hoes.
- Os byddwch yn marw o fewn **cyfnod a warantir** bydd y taliadau sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig yna byddant yn dod i ben pan fydd y cyfnod a warantir yn dod i ben.
- Bydd unrhyw gyfandaliad sy'n ddyledus o **gynnyrch incwm oes a warantir diogelu gwerth** yn cael ei dalu'n ddi-dreth. Yn ogystal, bydd fel arfer y tu hwnt i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu'n hŷn:

- Bydd incwm o **gynnyrch incwm sicr ar y cyd** neu **gyfnod gwarantedig parhaus** yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr, ac yn cael ei drethu ar y gyfradd Treth Incwm briodol. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.
- Bydd taliadau ar y cyd yn dod i ben pan fydd eich dibynnydd neu fuddiolwr arall yn marw a bydd unrhyw **daliadau cyfnod sicryn** yn dod i ben pan fydd y cyfnod sicryn yn dod i ben.
- Bydd unrhyw gyfandaliad sy'n ddyledus o **gynnyrch incwm sicr diogelu gwerth** yn cael ei ychwanegu at incwm cyffredinol y buddiolwr ac yn cael ei drethu yn ôl y gyfradd Treth Incwm briodol.
- Mae cyfandaliadau o **gynnyrch incwm sicr diogelu gwerth** fel arfer y tu hwnt i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant.

Dod o hyd i ymgynghorydd ariannol

Defnyddiwch Gyfeirlyfr Cynghorwyr Ymddeoliad y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn moneyadvice.service.org.uk/cyfeirlyfr i ddod o hyd i'r ymgynghorydd cywir i chi.

Bydd yr holl ymgynghorwyr sydd wedi'u rhestru yn cynnig cyngor ariannol a reoleiddir sy'n benodol i'ch anghenion a'ch amgylchiadau chi a gallwch ddewis cynnyrch gan ystod eang o ddarparwyr. Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cadw cyfeirlyfr gan ddefnyddio gwybodaeth yn uniongyrchol gan yr FCA felly gallwch gael tawelwch meddwl eich bod bob amser yn delio â chwmni sydd wedi' awdurdodi a'i reoleiddio.

Defnyddiwch eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg

Gallwch symud eich cronfa bensiwn gyfan, neu ran ohoni, i fuddsoddiad a gynlluniwyd yn benodol i ddarparu incwm ar gyfer eich ymddeoliad. Nid yw'r incwm wedi'i warantu fel rheol ond mae gennych hyblygrwydd i wneud newidiadau. Gelwir hyn weithiau yn 'tynnu arian i lawr yn hyblyg'

Sut mae'n gweithio

Fel rheol, gallwch ddewis cymryd hyd at 25% (chwarter) o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad di-dreth. Yna byddwch yn symud y gweddill o fewn chwe mis i un neu fwy o gronfeydd (neu asedau eraill) sy'n eich galluogi i gymryd incwm ar adegau sy'n gweddu i chi - e.e. Yn fisol, bob chwarter, bob blwyddyn neu godiadau arian afreolaidd. Bydd nifer o bobl yn ei ddefnyddio i gymryd incwm rheolaidd.

Ar ôl i chi gymryd eich cyfandaliad di-dreth, gallwch ddechrau cymryd yr incwm ar unwaith, neu aros tan ddyddiad yn nes ymlaen.

Mae'r incwm yn drethadwy. Gweler *Treth y byddwch yn ei dalu* ar dudalen 18.

Chi sy'n dewis buddsoddi mewn cronfeydd (neu asedau) sy'n cyd-fynd â'ch amcanion incwm a'ch agwedd at risg a phennu'r incwm rydych ei eisiau, er y gellir addasu hyn o bryd i'w gilydd, yn dibynnu ar berfformiad eich buddsoddiadau.

Gallwch hefyd symud eich cronfa bensiwn yn raddol i gynnyrch incwm

ymddeol hyblyg. Yn yr achos hwn, gallwch gymryd hyd at chwarter y swm y byddwch yn ei symud o'ch cronfa di-dreth bob tro, yna buddsoddi'r gweddill.

Er mwyn helpu i ddarparu mwy o sicrwydd, gallwch ddefnyddio'ch arian i gyd, neu ran ohono, yn eich cynllun incwm ymddeol hyblyg i brynu incwm sicr am oes (neu flwydd-dal) neu fath arall o gynnyrch incwm ymddeol. Bydd yr hyn sydd ar gael ar y farchnad yn amrywio ar unrhyw adeg benodol, felly bydd angen i chi drafod eich opsiynau gyda ymgynghorydd ariannol. Gall y cynhyrchion hyn ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau gwahanol i'ch galluogi i gymryd incwm rheolaidd – gyda gwarantau ar gyfer twf y buddsoddiad, incwm ac/neu faint fydd gennych ar ôl i'w drosglwyddo yn incwm ymddeol yn nes ymlaen.

Ni fyddwch yn gymwys i gael cyfandaliad di-dreth arall os byddwch n defnyddio cronfeydd eich incwm ymddeoliad hyblyg yn ddiweddarach i gymryd unrhyw gynhyrchion incwm ymddeoliad eraill.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn siarad ag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir os ydych yn dewis cynnyrch incwm hyblyg. Bydd ymgynghorydd ariannol yn cadarnhau beth sy'n addas i chi, yn eich helpu i ddod o hyd i'r cyllid cywir ac yn teilwra cynllun i gyd-fynd â'ch amgylchiadau unigol chi. 29 Gweler tudalen 29 i gael rhagor o fanylion.

Materion i'w hystyried

Yn wahanol i incwm a sicr am oes (blwydd-dal oes), nid oes sicrwydd y bydd yr incwm ymddeol y byddwch yn ei dderbyn o gynnyrch incwm ymddeol hyblyg yn para am weddill eich oes, felly dylech ystyried yn ofalus faint y byddwch yn ei godi.

Mae angen gwaith cynllunio gofalus ar gyfer penderfynu ar faint o incwm y gallwch ei fforddio – mae'n dibynnu ar faint o arian yr ydych yn ei roi i mew'n o'ch cronfa bensiwn, perfformiad y cronfeydd, pa ffynonellau incwm eraill sydd gennych ac a ydych eisiau darparu ar gyfer dibynnydd neu rywun arall ar ôl i chi farw. Mae'n dibynnu hefyd ar faint y byddwch yn byw – ac mae llawer o bobl yn tanamcangyfrif hyn.

Gallai eich incwm ymddeol ostwng neu ddod i ben hyd yn oed os byddwch yn cymryd gormod yn rhy fuan ac yn dechrau defnyddio'r arian y gwnaethoch ei fuddsoddi'n wreiddiol i gynhyrchu'r incwm – yn enwedig os bydd y marchnadoedd stoc yn cwmpo.

Mae dewis buddsoddiad yn hollbwysig – bydd angen i chi adolygu lle'r ydych wedi buddsoddi eich arian yn rheolaidd, i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni eich anghenion incwm ymddeol yn yr hirdymor.

Gall buddsoddiadau ostwng yn ogystal â chynyddu – mae angen i chi wybod sut y byddwch yn ymdopi os bydd eich incwm yn gostwng yn gyflym. Gall ymgynghorydd ariannol eich helpu i gynllunio ar gyfer hyn.

Er mwyn darparu mwy o sicrwydd, gallwch ddefnyddio eich cronfeydd incwm ymddeol hyblyg cyfan, neu ran ohonynt, i brynu incwm sicr ar gyfer tymor penodol neu am oes (blwydd-dal tymor penodol neu oes). Bydd ymgynghorydd ariannol yn gallu esbonio hyn i chi.

Bydd eich darparwr yn codi ffi am reoli eich cronfa bensiwn yn y ffordd hon ac/ neu pryd bynnag y bydd angen taliad arnoch, neu ar gyfer adolygiadau blynyddol neu ad hoc – gall hyn leihau maint eich buddsoddiadau a gallai eich arian ddod i ben. Gofynnwch am ffioedd ymlaen llaw.

Nid yw pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig cynhyrchion incwm ymddeol hyblyg – os nad yw eich un chi'n gwneud, gallwch drosglwyddo eich cronfa bensiwn i ddarparwr arall sydd yn gwneud, ond efallai y bydd ffi am wneud hyn.

Bydd darparwyr gwahanol yn cynnig nodweddion a strwythurau codi ffioedd gwahanol ar eu cynhyrchion – ac mae'r dewis yn debygol o gynyddu. Felly, hyd yn oed os yw eich cynllun neu ddarparwr chi yn cynnig yr opsiwn hwn, mae'n werth chwilio a chymharu a gofyn am gyngor.



Gallwch ddefnyddio ein teclyn ar-lein yn



moneyadvice.service.org.uk/
offer-tynnuilawr

i gael gwybod pa ddarparwyr eraill sy'n cynnig cynnyrch incwm ymddeol hyblyg; fodd bynnag, rydym yn argymhell cael cyngor ariannol. Mae cymharu'r cynhyrchion hyn yn gymhleth. Gweler tudalen 28 am wybodaeth ar chwilio am y fargen orau a chael cyngor ariannol.

Y dreth y byddwch yn ei thalu

Byddwch yn talu treth ar yr incwm y byddwch yn ei godi (y tu hwnt i'r lwfans arian parod di-dreth). Bydd faint o dreth y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd Treth Incwm sy'n berthnasol i chi. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Bydd eich darparwr yn didynnu treth o'ch taliadau incwm ymlaen llaw – a elwir yn TWE (Talu Wrth Ennill).

Oherwydd na fyddant yn gwybod beth yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau sy'n golygu y gallech dalu gormod o dreth i ddechrau a bydd angen adhawlio'r arian – neu efallai y bydd mwy o dreth yn ddyledus os bydd gennych ffynonellau incwm eraill.

Os oes gennych incwm arall, mae'n rhaid i chi gynllunio'n ofalus faint o incwm ymddeol hyblyg i'w gymryd, er mwyn osgoi gwthio eich hun i'r band treth uwch.

Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn yn fwy nac £1 filiwn (blwyddyn dreth 2017-18) ac nad yw'r cynilion hyn wedi'u hasesu eto yn erbyn y Lwfans Oes, efallai y bydd ffioedd treth pellach yn berthnasol pan fyddwch yn cael mynediad i'ch cronfa bensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 35.

Gostyngiad yn y dreth ar gynilion pensiwn yn y dyfodol

Ar ôl i chi ddechrau cymryd unrhyw arian o'ch cynnyrch incwm ymddeol hyblyg, fel rheol bydd uchafswm y cynilion pensiwn cyfraniadau diffiniedig i'r dyfodol wedi'i gyfyngu i'r isaf o £4,000 (y Lwfans Blynnyddol Prynu Arian – i lawr o'r Lwfans Blynnyddol arferol o £40,000 yn 2017-18) neu 100% o'ch enillion trethadwy. Os byddwch yn parhau i gronni eich cronfa bensiwn, gallai hyn ddylanwadu ar pryd y byddwch yn dechrau cymryd eich incwm ymddeol hyblyg.

Nid yw'r gostyngiad yn y dreth ar gynilion pensiwn yn y dyfodol yn cael ei effeithio os byddwch yn cymryd cyfandaliad didreth ond dim incwm.

Gweler hefyd *Lwfans Blynnyddol* ar dudalen 33 a *Lwfans Blynnyddol Prynu Arian* ar dudalen 36.

Budd-daliadau'r wladwriaeth.

Gallai'r incwm a gewch – ac mewn rhai achosion gwerth eich cronfeydd incwm ymddeol hyblyg sy'n weddill ac unrhyw cronfa bensiwn nad ydych wedi'i chyffwrdd – effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn awr neu pan fyddwch yn hŷn. I ganfod sut y gall incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i **GOV.UK**.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn marw

Bydd unrhyw gronfeydd incwm ymddeol hyblyg sy'n weddill pan fyddwch yn marw fel arfer y tu allan i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant. Mae'r rheolau Treth Incwm ar gyfer buddiolwyr wedi'u nodi isod.

Os byddwch yn marw cyn y byddwch yn 75 oed:

- Bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn heb ei chyffwrdd yn trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig, ar yr amod fod yr arian yn cael ei dalu o fewn dwy flynedd o ddatgan eich marwolaeth i'r darparwr. Os yw'n cael ei dalu ar ôl dwy flynedd, bydd yr arian yn cael ei ychwanegu at incwm arall y buddiolwr a drethir ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu'n hŷn:

- Bydd unrhyw beth sy'n weddill yn y gronfa y byddwch yn ei thosglwyddo – naill ai fel cyfandaliad neu incwm – yn cael ei drethu yn ôl cyfradd Treth Incwm briodol y buddiolwr. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Cymryd eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau.

Gallwch adael eich arian yn eich cronfa bensiwn a chymryd cyfandaliadau ohono pan fyddwch ei angen, nes y bydd eich arian yn dod i ben neu y byddwch yn dewis opsiwn arall.

Sut mae'n gweithio

Rydych yn cymryd arian parod o'ch cronfa bensiwn pan fyddwch ei angen ac yn gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi, lle gall barhau i dyfu'n ddi-dreth.

Ar gyfer pob taliad arian parod, fel arfer, bydd y 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn drethadwy. Gweler *Y dreth y byddwch yn ei thalu* ar dudalen 21.

Efallai y codir ffi bob tro y byddwch yn codi arian parod ac/neu gyfyngiadau o ran faint o daliadau y gallwch eu codi bob blwyddyn.

Yn wahanol i'r opsiwn incwm ymddeoliad hyblyg – gweler tudalen 17 – nid yw eich cronfa'n cael ei hail-fuddsoddi i gronfeydd newydd a ddewiswyd yn benodol i dalu incwm rheolaidd i chi.

Materion i'w hystyried

Ni fydd yr opsiwn hwn yn darparu incwm rheolaidd i chi, nac unrhyw ddibynnydd ar ôl i chi farw.

Mae eich cronfa bensiwn yn lleihau bob tro y bydd arian parod yn cael ei godi. Y cynharaf y byddwch yn dechrau codi arian, y mwyaf fydd y risg y gallai eich arian ddod i ben – neu ni fydd y swm sydd ar ôl yn tyfu'n ddigonol i gynhyrchu'r incwm sydd ei angen arnoch i bara i'ch henaint. Cofiwch – mae angen i'ch cronfa bensiwn ariannu eich anghenion tymor byr chi ond hefyd eich treuliau yn y dyfodol.

Gallai'r ffioedd gweinyddol y byddwch yn eu talu bob tro y byddwch yn codi arian dynnu o'r gronfa sy'n weddill gennych – gwnewch

ymholiadau i weld faint yw'r rhain.

Gallai gwerth buddsoddiadau eich cronfa leihau – gan ychwanegu at y risg o redeg allan o arian. Felly, mae'n hynof bwysig eich bod yn ei adolygu'n rheolaidd – a gallai olygu y bydd angen i chi symud neu ail-fuddsoddi yn eich cronfa ar ddyddiad diweddarach. Mae hyn yn debygol o gynnwys ffioedd.


Bydd yr arian yr ydych yn ei adael yn eich cronfa bensiwn yn parhau i gael ei fuddsoddi. Ar ôl i chi ei gymryd allan, bydd yn cael ei ychwanegu at eich incwm arall (Pensiwn y Wladwriaeth, budd-daliadau, cyflog ac yn y blaen) ac yn cael ei drethu. Os byddwch yn lledaenu'r arian yr ydych yn ei gymryd dros nifer o flynyddoedd treth, gallai leihau eich bil treth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o dan *Y dreth y byddwch yn ei thalu* ar dudalen 21 a'r enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu ar dudalen 39.

Cofiwch, mae pŵer prynu arian parod yn lleihau oherwydd bod prisiau wedi codi dros amser (chwyddiant). Nid ydym yn eich cynghori i ddefnyddio symiau o arian parod i ariannu eich ymddeoliad yn yr hirdymor.

Os ydych yn bwriadu defnyddio codiadau arian parod i wneud un pryniant neu i dalu dyledion, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych ddigon i fyw arno am weddill eich bywyd.



I gael gwybod ble i gael cyngor am ddim ar ddyledion defnyddiwch ein offer dod o hyd i gyngor ar Ddyledion yn

 moneyadvice.service.org.uk/canfyddwr-cyngor-ar-ddyledion

Nid yw pob darparwr neu gynllun pensiwn yn cynnig y gallu i godi eich cronfa bensiwn fel nifer o gyfandaliadau.

Chwiliwch am y fargen orau os ydych chi eisiau'r opsiwn hwn ond nad ydych yn gallu ei gael gyda'ch darparwr presennol, oherwydd bydd ffioedd a chyfyngiadau yn amrywio. Byddem hefyd yn argymhell cael cyngor ariannol. Darganfyddwch sut i chwilio am y fargen orau ar dudalen 28.

Efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r opsiwn hwn os oes gennych amddiffyniadau penodol sy'n ymwneud â'r Lwfans Oes.

➔ Gallwch ddarganfod rhagor am yr amddiffyniadau hyn ar

➔ moneyadvice.service.org.uk/lwfans-oes

Byddai'n well siarad â'ch darparwr cynllun os oes gennych un neu fwy o'r dulliau diogelu hyn a chael gwybod beth yw'ch opsiynau.

Y dreth y byddwch yn ei thalu

Fel arfer, mae tri chwarter (75%) o bob taliad arian parod sy'n cael ei godi yn cyfrif fel incwm trethadwy.

Gallai hyn gynyddu eich cyfradd dreth ar ôl ei hychwanegu at eich incwm arall. Bydd y swm o dreth y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar gyfanswm eich incwm a'r gyfradd Treth Incwm sy'n berthnasol i chi. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae treth incwm yn cael ei threthu.

Bydd eich cynllun neu ddarparwr pensiwn yn talu'r arian parod ac yn didynnu treth ymlaen llaw – a elwir yn TWE (Talu Wrth Ennill). Oherwydd na fyddant yn gwybod beth yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau.

Mae hyn yn golygu y gallech dalu gormod o dreth i ddechrau a bydd angen ad-hawlio'r arian – neu efallai y bydd mwy o

Pwyntiau allweddol

- ➔ Ni fydd yr opsiwn hwn yn darparu incwm ymddeol rheolaidd i chi nac unrhyw ddibynnyddion ar ôl i chi farw.
- ➔ Gallai gwerth yr arian sydd yn eich cronfa bresennol leihau mewn gwerth.
- ➔ Mae tri chwarter (75%) pob taliad arian parod sy'n cael ei godi yn cyfrif fel incwm trethadwy – gallai cymryd llawer o gyfansymiau mawr gynyddu eich cyfradd treth.

dreth yn ddyledus os bydd gennych ffynonellau incwm eraill.

Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn dros £ 1 filiwn (blwyddyn dreth 2017-18) ac nad yw'r cynilion hyn eisoes wedi'u hasesu yn erbyn y Lwfans Oes, efallai y bydd ffioedd treth pellach yn berthnasol pan fyddwch yn cael mynediad i'ch cronfa bensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 35.

Pan fyddwch yn 75 oed, os bydd gennych lai o Lwfans Oes yn weddill ar gael na'r swm yr ydych yn dymuno ei godi, bydd y swm a gewch yn ddi-dreth wedi'i gyfyngu i 25% (chwarter) o'r Lwfans Oes sydd gennych yn weddill, yn hytrach nac 25% o'r swm yr ydych yn ei godi. Gweler tudalen 35 i ganfod mwy am y Lwfans Oes.

Gostyngiad yn y dreth ar gynilion pensiwn yn y dyfodol

Ar ôl i chi gymryd cyfandaliad, mae'r uchafswm cynilion pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gellir eu gwneud mewn blwyddyn yn y dyfodol sy'n gymwys am ostyngiad yn y dreth wedi'i gyfyngu i'r isaf o £4,000 (y Lwfans Blynnyddol Prynu Arian – sydd i lawr o'r lwfans Blynnyddol o £40,000 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yn 2017-18) neu 100% o'ch enillion trethadwy. Os ydych yn dymuno parhau i gynilo mewn pensiwn, efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas i chi. Os ydych yn dymuno parhau i gynilo mewn pensiwn, efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas i chi.

I gael rhagor o wybodaeth gweler *Lwfans Blynnyddol* ar dudalen 34 a *Lwfans Blynnyddol Prynu Arian* ar dudalen 36.

Budd-daliadau'r wladwriaeth.

Gallai cymryd cyfandaliadau leihau eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn awr neu pan fyddwch yn hŷn. I ganfod sut y gall incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth, ewch i **GOV.UK**.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn marw

Pan fyddwch yn marw, bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn nad ydych wedi cyffwrdd ynddi fel arfer y tu allan i'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant. Mae'r rheolau Treth Incwm ar gyfer buddiolwyr wedi'u nodi ar y dde.

Os byddwch yn marw cyn y byddwch yn 75 oed:

- Bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn heb ei chyffwrdd yn trosglwyddo'n ddi-dreth i'ch buddiolwr enwebedig, ar yr amod fod yr arian yn cael ei dalu o fewn dwy flynedd o ddatgan eich marwolaeth i'r darparwr. Os yw'n cael ei dalu ar ôl dwy flynedd, bydd yr arian yn cael ei ychwanegu at incwm arall y buddiolwr a drethir ar y gyfradd briodol.

Os byddwch yn marw yn 75 oed neu'n hŷn:

- Bydd unrhyw ran o'ch cronfa bensiwn nad ydych wedi cyffwrdd ynddi yr ydych yn ei throsglwyddo – naill ai fel cyfandaliad neu incwm – yn cael ei hychwanegu at gyfanswm incwm y buddiolwr a'i drethu yn ôl y gyfradd Treth Incwm briodol. Gweler tudalen 39 am enghraifft o sut mae incwm pensiwn yn cael ei drethu.

Ffioedd Lwfans Oes:

- Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn dros £1 filiwn pan fyddwch yn marw, gallai taliadau treth pellach fod yn daladwy. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 35.

I gael gwybod ble y gallwch gael cyngor am ddim ar ddyledion defnyddiwch ein canfyddwr cyngor ar ddyledion yn

 moneyadvice.service.org.uk/dyled

Cymerwch eich cronfa bensiwn i gyd ar unwaith

Nid oes rhaid trosi'ch cronfa bensiwn yn incwm os nad ydych yn dymuno. Gallwch gymryd eich holl gynilion pensiwn gyda'i gilydd os ddymunwch.

Sut mae'n gweithio

Rydych yn cau eich cronfa bensiwn ac yn ei chodi i gyd fel arian parod. Fel arfer, bydd y 25% cyntaf yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn drethadwy. Gweler *Y dreth y byddwch yn ei thalu* ar dudalen 24.

Materion i'w hystyried

Ni fydd yr opsiwn hwn yn darparu incwm rheolaidd – nac i'ch priod, partner sifil na unrhyw ddibynnydd ar ôl i chi farw. Dylech ofyn am gyngor gan Pension Wise ac ystyried cyngor ariannol cyn ymrwymo eich hun.

Bydd beth bynnag sydd ar ôl ar ôl i chi gymryd eich arian di-dreth yn drethadwy pan gaiff ei godi fel incwm, felly mae posiblirwdd cryf y byddai eich cyfradd treth yn codi pan fydd yr arian yn cael ei ychwanegu at eich incwm arall.

Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn ni allwch newid eich meddwl – felly mae'n rhaid i chi fod yn sicr ei fod yn addas i chi. I nifer o bobl, neu'r rhan fwyaf o bobl, bydd yn fwy effeithlon o ran treth i ystyried un neu fwy o'r opsiynau eraill.

Os ydych yn bwriadu defnyddio'r arian parod i glirio dyledion, prynu gwylliau, neu brynu eitem ddud, mae angen i chi feddwl yn ofalus cyn ymrwymo i'r opsiwn hwn. Bydd gwneud hyn yn lleihau'r arian y bydd gennych i fyw arno ar ôl ymddeol, a gallech orfod tali bil treth fawr.

Os ydych wedi derbyn cyfran o bensiwn gyn-briod neu cyn-bartner sifil o ganlyniad i ysgariad, efallai na allwch gymryd yr opsiwn hwn gyda'r gronfa bensiwn honno. Gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn.

Efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r opsiwn hwn os oes gennych dulliau diogelu penodol sy'n ymwneud â'r Lwfans Oes.

➔ Gallwch ddarganfod rhagor am yr amddiffyniadau hyn ar moneyadvice.service.org.uk/lwfans-oes

Byddai'n well siarad â'ch darparwr cynllun os oes gennych un neu fwy o'r amddiffyniadau hyn a chael gwybod beth yw eich opsiynau.

Efallai y bydd ffi am gyfnewid eich cronfa gyfan am arian parod. Gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr.

Efallai na fydd yr holl gynlluniau a darparwyr pensiwn yn cynnig yr opsiwn hwn, ac i gael mynediad at eich arian efallai bydd angen i chi drosglwyddo i gynllun neu ddarparwr arall a fydd yn cynnig hyn yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o arwain at ffioedd ac efallai y byddwch yn ieldio buddiannau gwerthfawr. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn siarad â Pension Wise ac yn cael cyngor ariannol cyn ystyried hyn.

Awgrym treth

Gallai cymryd eich cronfa gyfan fel arian parod greu bil treth mawr i chi - i'r rhan fwyaf o bobl, bydd yn fwy effeithlon o ran treth i ddefnyddio un o'r opsiynau eraill. Dylech ofyn am arweiniad neu gyngor cyn gwneud ymrwymiad.

Y dreth y byddwch yn ei thalu

Fel arfer, bydd y 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drin fel incwm trethadwy. (Os sylwch y gallai rhai polisïau hyn eich galluogi i gymryd swm uwch yn rhad ac am ddim - holwch eich darparwr polisi). Bydd faint o dreth y byddwch yn ei thalu yn dibynnu ar eich cyfanswm incwm a'r gyfradd Treth Incwm sy'n berthnasol i chi.

Mae risg uchel y bydd eich cyfradd dreth yn codi gyda'r opsiwn hwn gan y bydd cyfanswm eich incwm am y flwyddyn yn codi.

Bydd eich cynllun neu ddarparwr pensiwn yn talu'r arian parod ac yn didynnu treth ymlaen llaw gan ddefnyddio TWE (Talu Wrth Ennill). Oherwydd na fyddant yn gwybod beth yw eich incwm cyffredinol, byddant yn defnyddio cod treth brys i ddechrau. Mae hyn yn golygu y gallech dalu gormod o dreth i ddechrau a bydd angen ad-hawlio'r arian – neu efallai y bydd mwy o dreth yn ddyledus os bydd gennych ffynonellau incwm eraill.

Os yw gwerth eich holl gynilion pensiwn dros £1 filiwn (2017-18) ac nad yw'r cynilion hyn eisoes wedi'u hasesu yn erbyn y Lwfans Oes, efallai y bydd ffioedd treth pellach yn berthnasol pan fyddwch yn cael mynediad i'ch cronfa bensiwn. Gweler *Lwfans Oes* ar dudalen 35.

Pan fyddwch yn 75 oed, os bydd gennych lai o Lwfans Oes yn weddill ar gael na'r swm yr ydych yn dymuno ei godi, bydd y swm a gewch yn ddi-dreth wedi'i gyfyngu i 25% (chwarter) o'r Lwfans Oes sydd gennych yn weddill, yn hytrach na 25% o'r swm yr ydych yn ei godi.

Gweler tudalen 35 i ganfod mwy am y Lwfans Oes.

Gostyngiad yn y dreth ar gynilion pensiwn yn y dyfodol

Ar ôl i chi gyfnewid eich cronfa bensiwn am arian parod, mae'r uchafswm cynilion pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gellir eu gwneud mewn blwyddyn yn y dyfodol sy'n gymwys ar gyfer gostyngiad yn y dreth wedi'i gyfyngu i'r isaf o £4,000 (y Lwfans Blyneddol Prynu Arian – sydd i lawr o'r lwfans Blyneddol o £40,000 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yn 2017-18) neu 100% o'ch enillion trethadwy.

Gweler 'Newid i MPAA' ar ddechrau'r canllaw hwn.

Fodd bynnag, yr eithriad i'r rheol hon yw y gellir cyfnewid unrhyw nifer o gronfeydd pensiwn buddion wedi'u diffinio o dan £10,000 ac/neu uchafswm o dair cronfa bensiwn o dan £10,000 am arian parod heb i hynny effeithio ar y Lwfans Blyneddol.

Budd-daliadau'r wladwriaeth.

Gallai cymryd cyfandaliad arian parod mawr leihau unrhyw hawl sydd gennych i fudd-daliadau'r Wladwriaeth yn awr, neu wrth i chi heneiddio – er enghraifft i helpu gydag anghenion gofal tymor hir. I ganfod sut y gall incwm neu gynilion effeithio ar fudd-daliadau'r Wladwriaeth ewch i **GOV.UK**.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn marw

Beth bynnag fydd eich oedran pan fyddwch yn marw, bydd unrhyw arian sy'n weddill neu fuddsoddiadau sy'n cael eu prynu gydag arian parod a gymerwyd o'ch cronfa bensiwn yn cyfrif fel rhan o'ch ystâd at ddibenion Treth Etifeddiant. I'r gwrthwyneb, ni fyddai unrhyw ran o'ch potyn nad ydych wedi'i cyffwrdd yn agored fel arfer.

Cymysgu eich opsiynau

Nid oes rhaid i chi ddewis un opsiwn – gallwch ddewis a dethol fel y dymunwch dros amser neu dros gyfanswm eich cronfa bensiwn, pa bynnag un sy'n gweddu orau i chi. Gallwch barhau i gynilo mewn pensiwn hefyd os byddwch yn dymuno, a chael gostyngiad yn y dreth hyd nes y byddwch yn 75 oed.

Sut mae'n gweithio

Bydd yr opsiwn neu gyfuniad o opsiynau sy'n addas i chi yn dibynnu ar:

- pryd y byddwch yn rhoi'r gorau i weithio neu'n lleihau eich oriau gwaith
- eich amcanion incwm a'ch agwedd at risg
- eich oedran a'ch iechyd
- maint eich cronfa bensiwn a chynilion eraill
- unrhyw bensiwn neu gynilion eraill sydd gan eich priod neu bartner, os yw'n berthnasol
- yr effaith bosibl ar eich hawl i fudd-daliadau'r Wladwriaeth
- a oes gennych ddibynyddion ariannol ai peidio
- a yw eich amgylchiadau yn debygol o newid yn y dyfodol.

Bydd yr opsiynau sydd ar gael i chi yn cael eu trafod gyda chi yn eich apwyntiad Pension Wise rhad ac am ddim. Gweler tudalen 6.

Ni fydd pob cynllun a darparwr pensiwn yn cynnig pob opsiwn – ond mae gennych y dewis o hyd. Gweler tudalen 28 ar sut i chwilio am y fargen orau.

Dyrannu cronfeydd wrth gymysgu opsiynau

Wrth gymysgu eich opsiynau, gallech:

- ddefnyddio rhannau gwahanol o un gronfa ar gyfer mwy nac un opsiwn
- defnyddio cronfeydd ar wahân ar gyfer opsiynau ar wahân
- cyfuno cronfeydd llai cyn dewis un opsiwn penodol.

Ni fydd pob darparwr yn caniatáu i chi ddefnyddio eich cronfa ar gyfer mwy nag un opsiwn – efallai y bydd angen i chi drosglwyddo i ddarparwr arall er mwyn gwneud hynny.

Os oes gennych nifer o gronfeydd, rydym yn argymhell eich bod yn gofyn am gyngor ariannol i feddwl am y ffordd orau o'u defnyddio. Bydd ymgynghorydd hefyd yn dweud wrthyh pryd mae'n gwneud synnwyr i gyfuno cronfeydd. Gweler tudalen 29 i gael ragor o wybodaeth am gael cyngor ariannol.

Enghreifftiau

Os oes gennych un cronfa gallech gymryd 25% (chwarter) o'ch cronfa bensiwn yn ddi-dreth, defnyddio 50% (hanner) i brynu incwm sicram oes, a gadael y 25% sy'n weddill yn eich pensiwn i chi gael mynediad ato ar sail hyblyg.

Neu, os oes gennych fwy nac un cronfa, gallech brynu incwm a sicr am oes gydag un ohonynt a derbyn incwm ymddeol hyblyg wrth un arall.

Cyfandaliadau di-dreth wrth gymysgu opsiynau

Sylwer, yn dibynnu ar sut y byddwch yn cael gafael ar eich arian o'ch cronfa bensiwn, efallai y byddwch ond yn cael un cyfle i gymryd eich swm di-dreth.

Er enghraifft, os byddwch yn trosglwyddo eich cronfa bensiwn gyfan i gynllun tynnu i lawr mynediad hyblyg a chymryd dim arian parod di-dreth ar yr adeg y byddwch yn trosglwyddo, ni allwch fynd yn ôl a chael mynediad at swm di-dreth yn ddiweddarach.

Fodd bynnag, os mai dim ond trosglwyddo rhan o'ch cronfa i gynllun tynnu i lawr mynediad hyblyg a gadael rhywfaint o'ch cronfa bensiwn gwreiddiol heb ei chyffwrdd, gallech gymryd hyd at 25% o'r arian sy'n weddill fel arian parod di-dreth.

Beth fydd yn digwydd pan fyddwch yn marw

Mae'r un rheolau yn berthnasol ar gyfer trosglwyddo'r pensiwn sydd gennych yn weddill fel y nodwyd eisoes ar gyfer pob opsiwn.

Nodiadau ar gyfer y siart gyferbyn:

1. Mae'n berthnasol i swm eich cronfa bensiwn y byddwch yn dewis ei ddefnyddio i brynu'r cynnyrch hwn. Os defnyddiwyd eich holl gronfa i brynu'r cynnyrch ac nad ydynt yn cymryd unrhyw arian parod di-dreth ar y pryd, ni allwch fynd yn ôl a'i gymryd yn nes ymlaen. Sylwch gyda rhai polisïau hŷn y gall cyfradd uwch o arian parod di-dreth fod ar gael.
2. Os ydych yn dewis yr opsiwn incwm ymddeol hyblyg, gallwch gymryd incwm ar adegau sy'n gweddu i chi, er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ei ddefnyddio i gymryd incwm rheolaidd.
3. Ond efallai y bydd rhai darparwyr yn cynnig cynhyrchion incwm ymddeol hyblyg 'arbenigol' sydd hefyd yn sicrhau isafswm incwm am oes.
4. Mae'r rhan nad ydych wedi'i chodi fel arian parod yn parhau i dyfu'n ddi-dreth a gallwch ei defnyddio i brynu unrhyw gynnyrch incwm ymddeol.
5. Nid yw'n effeithio ar eich Lwfans Blyneddol oni bai eich bod yn trefnu blwydd-dal oes a allai leihau (megis blwydd-dal sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau), lle byddai eich lwfans yn lleihau i £4,000 y flwyddyn.
6. Gweler *Lwfans Blyneddol Prynu Arian* ar dudalen 36 i gael manylion a **Newid i MPAA** ar ddechrau'r canllaw hwn.

Cipolwg ar yr opsiynau

Cofiwch – gallwch gymysgu’r opsiynau hyn. Gofynnwch am hyn yn eich apwyntiad Pension Wise am ddim yna chwilio a chymharu neu gael cyngor ariannol.

	Cael incwm gwarantedig am oes (blwydd-dal)	Cymryd Incwm Ymddeol Hyblyg	Cymryd nifer o gyfandaliadau	Cymryd y gronfa cyfan ar unwaith
Faint o arian parod di-dreth y gallaf ei gael?	Fel arfer hyd at 25% o gronfa ¹	Fel arfer hyd at 25% o gronfa ¹	Fel arfer 25% o bob taliad sy’n cael ei godi	Fel arfer 25% o gronfa
Incwm rheolaidd?	Oes	Oes ²	Nac oes	Nac oes
Incwm sicr am oes?	Oes	Oes ³	Nac oes	Nac oes
A oes angen adolygu fy nghronfa bensiwn yn rheolaidd?	Nac oes	Oes	Oes	Ddim yn berthnasol
A allai fy arian ddod i ben yn ddiweddarach yn fy ymddeoliad?	Na	Gall	Gall	Gall
A yw’n talu incwm uwch ar gyfer cyflyrau meddygol?	Ydy	Nac Ydy	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
A allaf newid meddwl a gwneud defnydd gwahanol o’r cronfa?	Na	Gallwch	Gallwch ⁴	Na
A fydd fy nghyfradd treth yn cynyddu pan fyddaf yn defnyddio fy nghronfa?	Mae’n dibynnu ar lefel yr incwm a delir ac incwm arall	Mae’n dibynnu ar lefel yr incwm a gymerwyd ac incwm arall	Mae’n dibynnu ar faint y taliadau arian parod y byddwch yn ei godi ac incwm arall	Tebygol iawn
A yw’n effeithio ar y gostyngiad yn y dreth ar fy nghynilion pensiwn?	Nac ydy ⁵	Ydy ⁵	Ydy ⁵	Ydy ⁵

Chwilio am y fargen orau a chael cyngor

Ar ôl eich apwyntiad Pension Wise, mae'n hanfodol i chwilio am y fargen orau - peidiwch â bod yn rhy barod i gymryd eich cynllun pensiwn eich hun neu gynhyrchion darparwr.

Dilynwch y camau isod i ddarganfod yr hyn sydd ar gael gan eich darparwr eich hun a'r farchnad ehangach. Unwaith y byddwch chi wedi gwneud hyn, rydym yn argymhell cael cyngor ariannol.

Os bydd y posibilrwydd o chwilio am y fargen orau'n rhy frawychus, ewch i gael cyngor o'r cychwyn cyntaf - gweler tudalen Cam 3, tudalen 29. Mae cymharu cynhyrchion yn gymhleth ac mae'n hanfodol eich bod yn gwneud y dewis cywir.

Sut i chwilio a chymharu

Cam 1 – Gofynnwch beth mae eich cynllun neu ddarparwr presennol yn gallu ei gynnig

Gofynnwch i'ch cynllun neu ddarparwr presennol beth y gallant ei gynnig i chi a gofynnwch am ddyfynbrisiau ar gyfer yr holl opsiynau y mae gennych ddiddordeb ynddynt i'w defnyddio fel sylfaen ar gyfer cymharu.

Ar ôl chwilio am y fargen orau - a hyd yn oed os ydych yn ystyried gohirio cymryd eich pensiwn - rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor ariannol. Gweler tudalen 29.

- Gofynnwch a ydynt yn cynnig cyfradd blwydd-dal sicr. Os ydynt, mae'n debygol o fod yn anodd cael cyfradd gystal rhywle arall os ydych yn awyddus i gael incwm sicr am oes – ond dylech barhau i chwilio a chymharu i gadarnhau hynny.
- Gwnewch ymholiadau i weld a fydd unrhyw warantau eraill a fydd yn cael eu colli, neu amodau neu ffioedd a fydd yn berthnasol os ydych yn trosglwyddo i ddarparwr arall.
- Os ydych yn gobeithio prynu blwydd-dal oes, dylech ateb unrhyw gwestiynau meddygol a ffordd o fyw yn gyflawn ac yn gywir, oherwydd gallai hyn gynyddu'r incwm oes rheolaidd y gallech ei gael. (Gallwch gael copi o'r cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn i chi yn retirementhealthform.co.uk).


Cam 2 – Cymharu dyfynbrisiau, nodweddion a ffioedd ar gyfer yr opsiynau sydd o ddiddordeb i chi

Cymharu dyfynbrisiau incwm sicr (blwydd-daliadau):

- Gallwch gymharu cynhyrchion incwm oes sicr sylfaenol (blwydd-daliadau) gan ddefnyddio tabl cymharu Blwydd-daliadau'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol moneyadvice.service.org.uk/blwydd-daliadau.

- Neu gallwch ddefnyddio brocer blwydd-dal a fydd yn casglu'r dyfynbris i chi. Fodd bynnag, byddwch yn ofalus gan nad yw'r rhan fwyaf yn cynnig cyngor nac yn dweud wrthyhych pa flwydd-dal sydd orau i chi. Eich penderfyniad chi ydyw ac os byddwch yn dewis yr un anghywir, ni allwch wneud cwyn na chael iawndal.
- Neu gallwch gael cyngor ariannol a reoleiddir. Bydd ymgynghorydd ariannol hefyd yn casglu'r dyfynbris i chi, ond yn wahanol i frocer, bydd yn argymhell y cynnyrch mwyaf addas sy'n cwrdd â'ch anghenion a'ch amgylchiadau penodol. Darganfyddwch ragor yng Ngham 3.

Cymharu cynhyrchion incwm ymddeol hyblyg

- Mae cynhyrchion incwm ymddeol hyblyg yn gymhleth i chi eu cymharu eich hun oherwydd mae'r dewis yn enfawr a bydd yr hyn sydd orau i chi yn dibynnu ar nifer o ffactorau.
- Fodd bynnag, gallwch weld ciplun o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a gweld rhestr o'r darparwyr sy'n cynnig y cynhyrchion hyn gan ddefnyddio offeryn incwm ymddeol Hyblyg y Gwasanaeth Cyngori Ariannol  moneyadvice.service.org.uk/opsiynau-incwm-ymddeoliad
- Ond, dylech gofio nad yw'r rhestr gynhyrchion yn un gyflawn ac rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cael cyngor ariannol – gweler y cam nesaf – cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Cam 3 – Siarad gydag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir

Mae cynllunio incwm ymddeol yn gymhleth ac mae'r opsiynau sydd gennych - gan gynnwys gohirio cymryd eich pensiwn - yn wahanol o ran addasrwydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Bydd y dewisiadau a wnewch yn effeithio ar eich incwm am weddill eich bywyd. Felly, rydym yn argymhell eich bod yn siarad ag ymgynghorydd ariannol a reoleiddir oni bai eich bod yn sicr eich bod yn deall pa opsiwn sy'n addas i chi.

Mae cynhyrchion cymhleth, megis blwydd-daliadau cysylltiedig â buddsoddi a chynhyrchion incwm ymddeol hyblyg, yn anodd eu cymharu eich hun a bydd ymgynghorydd yn esbonio'r manylion ac yn argymhell a oes un o'r rhain neu gynnyrch incwm sicr yn addas i chi. Yn yr un modd, os ydych yn ystyried gohirio cymryd eich pensiwn, bydd ymgynghorydd ariannol yn gallu cadarnhau a yw hyn yn ddewis synhwyrol ac yn eich helpu i gynllunio ymlaen llaw.

Mae cynghorwyr ariannol yn weithwyr proffesiynol cymwys a fydd yn argymhell pa gamau sy'n iawn i chi yn unig ar ôl cymryd i ystyriaeth eich amgylchiadau ariannol a phersonol ar y cyfan. Cânt eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a rhaid dilyn eu rheolau. Os bydd y cyngor a roddant i chi'n anaddas yn y pendraw, gallwch wneud cwyn ac os oes angen, mynd at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.

Mae'r Lwfans Cyngor Pensiynau newydd yn cynnig cymorth treth i'ch helpu i dalu am gyngor ariannol. Gweler tudalen 30.

Cyngor annibynnol neu gyfyngedig

Mae ymgynghorwyr ariannol annibynnol' yn edrych ar yr holl fathau o gynhyrchion ariannol a'r holl ddarparwyr. Mae ymgynghorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' yn arbenigo mewn mathau penodol o gynhyrchion ac/neu maent yn cyfyngu ar y nifer o gynhyrchion darparwyr maen nhw'n edrych arnynt.

I gael y dewis mwyaf o gynhyrchion incwm ymddeol, yn ddelfrydol rydych eisiau ymgynghorydd sy'n gallu argymhell cynhyrchion o'r farchnad gyfan y maent yn cynghori arni.


Beth yw'r gost?

Bydd ymgynghorydd ariannol naill ai'n codi canran o'ch cronfa bensiwn arnoch, ffi fesul awr neu ffi sefydlog. Gallwch dalu ymlaen llaw, neu gael y ffi wedi'i didynnu o'ch cronfa bensiwn ar ôl i unrhyw swm di-dreth gael ei godi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cyfarfod cychwynnol am ddim. Bydd ymgynghorwyr bob amser yn rhoi amcangyfrif i chi o beth fydd cost eu gwasanaethau cyn i chi ymrwymo eich hun.

Y Lwfans Cyngor Pensiwn

Er mwyn helpu talu am gyngor ariannol, cyflwynwyd Lwfans Cyngor Pensiwn newydd o fis Ebrill 2017 ar gyfer unrhyw un sydd â phensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'n eich galluogi i godi £500 o'ch cronfa bensiwn yn ddi-dreth hyd at dair gwaith (dim mwy nag unwaith mewn blwyddyn dreth), i gael ei ddefnyddio i dalu am gyngor gan ymgynghorydd ariannol a reoleiddir, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol a reoleiddir o Gyfeirlyfr Ymgynghorwyr Ymddeol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

 moneyadvice.service.org.uk/cyfeirlyfr

Cael help neu gyngor gan ddarparwyr cynnyrch

Gallwch hefyd siarad yn uniongyrchol gyda darparwr cynnyrch - ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn a ydynt yn cynnig cyngor ariannol i chi ac argymhelliad neu wybodaeth yn unig.


Os ydynt yn cynnig gwybodaeth yn unig, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus bod unrhyw gynnyrch incwm ymddeol y gallech ei ddewis yn addas i chi ac na allwch gael gwell bargaen rywle arall. Nid oes gennych unrhyw ddiogelwch os yw'r cynnyrch yr ydych yn ei brynu yn anaddas i chi yn y pen draw.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch am gyngor – efallai y gallant argymhell rhestr o gynghorwyr ariannol i chi neu gynnig eu gwasanaeth cynghori eu hunain. Fodd bynnag, os ydynt yn cynnig cyngor, mae'n debygol y bydd hyn wedi'i gyfyngu i'w cynhyrchion eu hunain.

Beth yw'r gost?

Os ydych yn defnyddio gwasanaeth a awgrymwyd gan ddarparwr, rydych yn talu ffi fel y disgrifiwyd uchod. Os byddwch yn prynu heb gyngor, mae'n bosibl y bydd cost eu gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y dyfynbris y byddant yn ei gynnig i chi – ni fydd hyn o reidrwydd yn rhatach na chael cyngor.

Awgrym da

 Dylech ddewis ymgynghorydd ariannol sy'n gallu argymhell cynhyrchion gan ystod eang o ddarparwyr.

Sut i adnabod twyll pensiynau a buddsoddiadau

Mae twyll pensiynau a buddsoddiadau ar gynydd yn y DU. Mae twyllwyr yn defnyddio dulliau soffistigedig i amddifadu cynilwyr o'u harian bob dydd. Gwiriwch y ffeithiau cyn i chi wneud penderfyniad na allwch ei wyrdroi - gall cynilion oes gael eu colli mewn eiliadau.

Yn benodol, byddwch yn wylidwrs o bobl sy'n cysylltu â chi'n ddirybudd ynglŷn â'ch pensiwn neu sydd â hysbysebion sy'n honni eu bod yn cynnig 'adolygiadau pensiwn am ddim', 'ymgyngoriadau heb rwymedigaeth', elw afrealistig ar fuddsoddiadau neu ddiangfeydd treth.

Byddwch yn wylidwrs hefyd o addewidion i gael mynediad at eich cronfa bensiwn o dan 55 oed - a elwir weithiau yn 'rhyddhau pensiwn' neu 'fenthyciadau pensiwn'. Dim ond mewn achosion prin iawn yw hyn yn gyfreithiol bosibl - megis os ydych yn wael eich iechyd - felly peidiwch â'u credu. Nod y cwmnïau neu'r unigolion diegwyddor hyn yw eich darbwyllo i gyfnwied eich cronfa bensiwn am arian parod a rhoi'r arian iddynt hwy ei fuddsoddi.

Gall y cwmnïau hyn fod yn soffistigedig iawn ac mae ganddynt wefannau argyhoeddiadol. Efallai y bydd rhai'n awgrymu eu bod yn rhan o wasanaeth canllaw Pensiwn Wise, a gefnogir gan y llywodraeth, neu'r Gwasanaeth Cyngchori ar Bensiynau, drwy gynnwys y termau 'pension' a 'wise' neu 'guidance' yn eu henw. Efallai y bydd rhai yn awgrymu eu bod o'r Gwasanaeth Cyngchori Ariannol hyd yn oed.

Gallai twyllwyr:

- geisio eich darbwyllo i gyfnwied eich pensiwn cyfan am arian parod – neu gyfandaliad mawr – a gadael iddynt ei fuddsoddi i chi, yn aml mewn buddsoddiadau heb eu rheoleiddio (sy'n golygu nad oes gennych unrhyw ddiogelwch os bydd pethau'n mynd o'i le).
- addo arbedion treth ychwanegol a/ neu elw uchel iawn o fuddsoddiadau tramor neu fuddsoddiadau newydd neu 'greadigol'.
- dweud y gallant eich helpu chi neu rywun arall ddatgloi eich pensiwn cyn y byddwch yn 55 oed, er enghraifft, drwy ei drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Ar ôl i chi drosglwyddo eich pensiwn neu eich cyfandaliad, gallai fod yn rhy hwyr. Mae llawer o ddioddefwyr wedi colli eu cynilion pensiwn cyfan i dwyllwyr. Hyd yn oed os na fyddwch yn colli eich arian, gallech wynebu bil treth mawr gan Gyllid a Thollau EM.

Ni fydd yr un o'r gwasanaethau a gefnogir gan y llywodraeth (Pension Wise, Gwasanaeth Cyngchori Pensiynau neu'r Gwasanaeth Cyngchori Ariannol) byth yn cysylltu â chi ar hap. Rhowch y ffôn i lawr os byddwch yn derbyn galwad annisgwyl a sicrhewch fod gennych y wefan gywir bob amser. Gweler Cysylltiadau ar dudalen 40.

Sut i adnabod twyll

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, byddwch yn wiliadwros o un neu fwy o'r nodweddion neu dwyll cyffredin canlynol:

- rhywun yn cysylltu â chi'n ddirybudd dros y ffôn, drwy neges destun neu wyneb yn wyneb o ddrws i ddrws.
- nid ydych yn cael llawer o amser i wneud penderfyniad neu rydych yn teimlo dan bwysau i wneud penderfyniad yn y fan â'r lle.
- yr unig fanylion cyswllt y maent yn eu rhoi i chi neu ar eu gwefan yw rhif ffôn symudol a chyfeiriad blwch postio.
- os nad yw cwmni eisiau i chi, neu nad ydynt yn caniatáu i chi eu ffonio nhw nôl.

Am ragor o wybodaeth am dwyll pensynnau ac i weld fideos gydag enghreifftiau go iawn o bobl sydd wedi colli eu harian, ewch i

thepensionsregulator.gov.uk/pension-scams

Dylech bob amser gadarnhau cymwysterau unrhyw un sy'n cysylltu â chi

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni sy'n cynnig cynhyrchion neu gyngor ariannol gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) er mwyn cynnal eu busnes.

Os ydych yn ansicr am gwmni sydd wedi cysylltu â chi, defnyddiwch gofrestr yr FCA ar-lein i weld a yw cwmni wedi'i gofrestru yn **fca.org.uk/register** neu ffoniwch hwy ar **0800 111 6768**.

Dylech gadarnhau'r ffeithiau cyn gwneud unrhyw benderfyniad ellir ei wyrdroi. Cofiwch y gallech golli eich cynilion oes.

Os ydych yn credu eich bod yn cael eich targedu

- Peidiwch â chael eich rhuthro i wneud penderfyniad. Cyn i chi lofnodi unrhyw beth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau (TPAS) ar **0300 123 1047**.
- Sicrhewch fod y cwmni wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) cyn cytuno i unrhyw beth.
- Ewch i wefan Scamsmart yr FCA yn **fca.org.uk/scamsmart** – byddant yn rhoi enwau cynlluniau buddsoddi twyllodrus hysbys i chi ac yn eich galluogi i gadarnhau a yw cwmni yn ymddangos ar eu rhestr rybuddio.

Os ydych wedi derbyn cynnig neu wedi colli arian

- Os ydych chi eisoes wedi llofnodi rhywbeth rydych yn awr yn ansicr yn ei gylch, cysylltwch â'ch darparwr pensiwn yn syth. Efallai y byddant yn gallu atal trosglwyddiad sydd heb ddigwydd eto. Yna ffoniwch Action Fraud ar **0300 123 2040** i ddweud wrthynt.

Awgrymiad Da

- ➔ Bydd unrhyw gwmni sy'n honni eu bod yn rhan o wasanaeth Pension Wise y llywodraeth yn cyflawni trosedd. Dylech ond gysylltu â Pension Wise drwy ei gwefan neu drwy ffonio 0800 138 3944.

Egluro jargon

Incwm wedi'i addasu

Eich incwm blynyddol cyn treth yn ogystal â gwerth eich cyfraniadau pensiwn eich hun a chyfraniadau pensiwn unrhyw gyflogwr.

Lwfans Blynyddol Amgen

Terfyn y swm o arian di-dreth y gallwch ei gronni mewn pensiwn buddion wedi'u diffinio mewn unrhyw flwyddyn ar ôl i chi ddechrau'r Lwfans Blynyddol Prynu Arian. Y Lwfans Blynyddol Amgen ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yw £30,000 (ac unrhyw lwfans sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r tair blynedd dreth flaenorol). Os oes gennych gynilion pensiwn buddion wedi'u diffinio a'u bod yn uwch na'r Lwfans blynyddol Amgen (pan fydd yn berthnasol i chi) codir taliad treth sy'n adfachu unrhyw ostyngiad yn y dreth a roddwyd ar y cynilion pensiwn dros ben. Os yw eich 'incwm wedi'i addasu' dros £150,000, mae'r Lwfans Blynyddol Amgen yn cael ei leihau £1 am bob £2 y bydd eich incwm yn mynd dros £150,000, hyd at uchafswm gostyngiad o £30,000.

Gweler hefyd *Pensiwn buddion wedi'u diffinio a Lwfans Blynyddol Prynu Arian*.

Lwfans Blynyddol

Terfyn y swm o faint o arian di-dreth y gallwch ei gronni yn eich pensiwn mewn unrhyw flwyddyn yn seiliedig ar eich cyfraniadau chi, cyfraniadau unrhyw gyflogwr ac unrhyw gyfraniadau a wnaed ar eich rhan gan rywun arall. Yn y flwyddyn dreth 2017-18, y Lwfans Blynyddol yw £40,000 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Mae'r Lwfans blynyddol yn berthnasol ar draws eich holl gynilion pensiwn, nid fesul cynllun. Os byddwch yn mynd dros y Lwfans Blynyddol, codir taliad yn y dreth ('y tâl Lwfans Blynyddol') sy'n adfachu unrhyw ostyngiad treth a roddwyd yn y ffynhonnell. Gweler hefyd *Lwfans Blynyddol Prynu Arian*.

Os yw eich enillion trethadwy yn y flwyddyn yn is na'r Lwfans Blynyddol, yna bydd y gostyngiad yn y dreth ar gyfraniadau pensiwn o bob ffynhonnell wedi'i gyfyngu i 100% o'ch enillion (neu i £3,600 os nad oes gennych unrhyw enillion).

Os yw eich 'incwm wedi'i addasu' dros £150,000, mae'r Lwfans Blynyddol yn cael ei leihau'n raddol neu ei 'dapro'. Gweler *Incwm Wedi'i Addasu a Lwfans Blynyddol wedi Tapro*.

Blwydd-dal

Math o incwm ymddeol sy'n darparu incwm rheolaidd i chi – naill ai am oes neu am gyfnod penodol. Gweler hefyd *Blwydd-dal oes*, *Blwydd-dal cyfnod penodol* a *Blwydd-dal sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau*.

Pensiwn balans arian

Trefniant pensiwn lle bydd eich cyflogwr yn addo cronfa pensiwn o swm penodol i chi, pan fyddwch yn cyrraedd oedran ymddeol. Fel arfer, mae'r swm yn cael ei gyfrifo fel cyfran o'ch cyflog am bob blwyddyn o wasanaeth.

Byddwch yn gwybod faint fydd yn y gronfa, ond nid oes addewid o ran y swm o pensiwn y gallwch ei brynu (neu ei gymryd) ohono.

Pensiwn buddion wedi'u diffinio

Mae'n talu incwm ymddeol yn seiliedig ar eich cyflog a hyd gwasanaeth i'ch cyflogwr. Mae pensiynau buddion wedi'u diffinio yn cynnwys cynlluniau pensiwn 'cyflog terfynol' a 'chyfartaledd gyrfa'. Yn gyffredinol, bydd y rhain ond ar gael gan gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus neu weithle hŷn.

Pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio

Cronni cronfa bensiwn i dalu incwm ymddeol yn seiliedig ar gyfraniadau gennych chi a/neu eich cyflogwr. Mae eich cronfa'n cael ei rhoi i mewn i wahanol fathau o fuddsoddiadau, gan gynnwys cyfranddaliadau. Mae'r swm yn eich cronfa bensiwn pan fyddwch yn ymddeol yn seiliedig ar faint sydd wedi'i dalu i mewn a pha mor dda mae'r buddsoddiadau wedi perfformio. Gelwir y rhain hefyd yn gynlluniau 'prynu arian'. Maent yn cynnwys pensiynau gwaith a phersonol, gan gynnwys pensiynau cyfranddeiliaid Gallai'r rhain gael eu rhedeg gan gwmni yswiriant neu ddarparwr ymddiriedolaeth feistr, neu drwy gynllun prwpasol wedi'i drefnu gan eich cyflogwr.

Tynnu incwm i lawr

Gweler *'Tynnu incwm i lawr yn hyblyg'*.

Blwydd-dal sefydlog

Cynnyrch incwm ymddeol yn sicrhau incwm rheolaidd am gyfnod penodol – 5 neu 10 mlynedd fel arfer – ac sy'n talu 'swm aeddfedu' ar y diwedd. Mae fel arfer yn cael ei brynu o arian o gynnyrch incwm ymddeol hyblyg

Ymgynghorydd ariannol

Gweler *'Ymgynghorydd ariannol a reoleiddir'*.

Pensiwn cyflog terfynol

Gweler *Pensiwn buddion wedi'u diffinio*.

Tynnu incwm i lawr yn hyblyg

Gelwir hyn yn 'incwm ymddeoliad hyblyg' yn y llyfryn hwn. Mae'n eich galluogi i ddefnyddio eich cronfa bensiwn i ddarparu incwm ymddeol rheolaidd drwy ei fuddsoddi mewn cronfeydd sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n benodol at y diben hwn. Nid yw'r incwm wedi'i sicrhau am oes ond mae gennych yr hyblygrwydd i wneud newidiadau i faint y byddwch yn ei gymryd neu ei symud yn ddiweddarach i gynhyrchion incwm ymddeol mwy diogel.

Mae hyn yn disodli tynnu incwm i lawr yn hyblyg a thynnu i lawr wedi'i gapio o fis Ebrill 2015, er y gall defnyddwyr presennol tynnu i lawr wedi'i gapio barhau yn y cynllun hwnnw.

Blwydd-dal wedi'i gysylltu â buddsoddiadau hyblyg

Mae'n talu incwm ymddeol rheolaidd am oes a allai gynyddu neu leihau yn unol â buddsoddiadau gwaelodol, ond lle bydd isafswm taliad misol yn cael ei sicrhau am oes. Mae hefyd yn eich galluogi i ddewis a newid symiau taliadau misol, gan gynnwys dewis taliadau is yn ddiweddarach yn eich oes. Gelwir hyn weithiau yn flwydd-dal newidiol.

Cyfradd blwydd-dal sicr

Incwm sicr gwerthfawr sy'n cael ei gynnig yn aml gan eich cynllun neu ddarparwr pensiwn os byddwch yn trefnu blwydd-dal oes gyda hwy. Yn debygol o fod yn anodd eu cyfateb trwy chwilio am y fargen orau.

Tynnu arian i lawr a warentir

Cynnyrch hybrid sy'n cyfuno incwm sicr am oes gyda nodweddion cynnyrch incwm ymddeol hyblyg.

Cynhyrchion hybrid

Cynhyrchion sy'n cyfuno nodweddion blwydd-daliadau a chynhyrchion incwm ymddeol hyblyg er mwyn darparu incwm ymddeol.

Tynnu incwm i lawr

Term a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio cymryd eich pensiwn fel incwm ymddeol hyblyg. Gelwir hyn hefyd yn 'tynnu incwm i lawr yn hyblyg' neu'n 'tynnu incwm i lawr'.

Cyfraddau Treth Incwm

Mae Treth Incwm yn cael ei rannu'n fandiau a byddwch yn talu cyfraddau gwahanol: 20%, 40% a 45% yn seiliedig ar y bandiau hyn. Mae incwm eich pensiwn yn cael ei ychwanegu at eich enillion eraill ac yna'n cael ei drethu'n unol â'r band treth y mae'n perthyn iddo. Os yw'n gwrthio eich incwm cyffredinol i fand treth newydd efallai y gallwch dalu treth arno ar ddwy gyfradd. Gweler tudalen 38 i ddeall mwy am fandiau Treth Incwm ac i weld enghraifft sy'n cynnwys incwm pensiwn.

Chwyddiant

Cynnydd yn lefel gyffredinol prisiau newyddau a gwasanaethau.

Blwydd-daliadau wedi'u cysylltu â buddsoddiadau

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n sicr i dalu allan am oes ond nad yw'n swm penodol – bydd taliadau'n codi a gostwng yn unol â gwerth y buddsoddiadau gwaelodol. Mae isafswm incwm misol yn cael ei sicrhau os yw'r perfformiad yn wan.

Lwfans Oes

Y cyfanswm y gallwch ei gynilo mewn pensiynau yn ystod eich bywyd gan barhau i gael gostyngiad yn y dreth. Os byddwch yn mynd dros y lwfans,

byddwch yn talu taliad treth ar y swm dros ben pan fyddwch yn tynnu eich cynilion i lawr fel arian parod neu bensiwn. Ar gyfer y flwyddyn dreth 2017-18, y Lwfans Oes yw £1 filiwn.

Os ydych yn mynd dros y lwfans byddwch yn talu treth ar y swm dros ben (a elwir yn 'dâl Lwfans Oes') o 55% os yn cymryd y pensiwn fel cyfandaliad neu 25% os byddwch yn ei gymryd fel incwm. (Os yn cymryd fel incwm byddwch hefyd yn talu treth arno ar eich cyfradd Treth Incwm arferol). Nid yw'r un cynilion yn cael eu hasesu ddwywaith. Felly, er enghraifft, rydych yn rhoi £2 filiwn o'ch cronfa bensiwn mewn i gynnrych incwm ymddeol hyblyg, yna bydd hyn wedi'i brofi a bydd y swm dros ben yn cael ei drethu ac ni fydd unrhyw daliad Lwfans Oes arall yn ddyledus.

Os byddwch yn marw ac yn gadael cynilion pensiwn heb eu cyffwrdd sydd dros y Lwfans Oes – ac nad ydynt eisoes wedi asesu yn eu herbyn – yna bydd eich buddiolwr enwebedig yn gorfod talu'r taliadau treth ychwanegol ar y swm sy'n uwch na'r Lwfans Oes.

Mae hyn yn berthnasol p'un a fyddwch yn marw cyn neu ar ôl 75 oed. (Gall cronfeydd gael eu trosglwyddo'n ddi-dreth fel arfer i fuddiolwyr enwebedig os byddwch yn marw cyn 75 oed).

Blwydd-dal oes

Cynnyrch incwm ymddeol sy'n sicrhau incwm rheolaidd am weddill eich bywyd. Gall yr incwm barhau'n ddigryfnid, gallai fod yn gysylltiedig â chwyddiant neu gallai gynyddu'n raddol ar gyfraddau penodol, yn dibynnu ar ba nodweddion y byddwch yn eu dewis. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn i ddarparu ar gyfer dibynnydd am oes ar ôl i chi farw, yn gyfnid am incwm is.

Gostyngiad yng ngwerth y farchnad

Gostyngiad i'ch cronfa bensiwn a allai fod yn berthnasol os ydych yn dymuno cyfnewid eich polisi gydag elw am arian parod cyn neu ar ôl ei ddyddiad aeddfedu neu ddyddiad arall/dyddiadau eraill sydd wedi'u nodi yn y polisi. Gallai fod yn berthnasol, er enghraifft, yn dilyn neu yn ystod cyfnod o berfformiad gwael yn y farchnad stoc.

Pensiwn prynu arian

Gweler *Pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio*.

Lwfans Blynyddol Prynu Arian (MPAA)

Os byddwch yn dechrau cymryd arian o'ch pensiwn cyfraniadau diffiniedig, gall hyn sbarduno lwfans blynyddol is o £4,000 (2017-18) a elwir yn Lwfans Blynyddol Prynu Arian. (MPAA).

Golyga hyn y byddwch fel arfer ond yn cael gostyngiad yn y dreth ar gyfraniadau pensiwn o hyd at 100% o'ch enillion trethadwy, neu £4,000, pa bynnag un yw'r isaf.

Fel canllaw sylfaenol, dyma'r prif sefyllfaoedd lle byddwch yn sbarduno'r MPAA:

- Os byddwch yn cymryd eich cronfa gyfan fel cyfandaliad neu'n dechrau cymryd cyfandaliadau ad-hoc o'ch cronfa bensiwn
- Os byddwch yn rhoi arian eich cronfa bensiwn i gynllun tynnu i lawr hyblyg ac yn dechrau cymryd incwm
- Os byddwch yn prynu blwydd-dal cysylltiedig â buddsoddiad neu flwydd-dal hyblyg lle gallai eich incwm ostwng

- Os oes gennych chi gynllun tynnu i lawr wedi'i gapio cyn Ebrill 2015, cynlluniwch a dechreuwch gymryd taliadau sy'n uwch na'r cap

Fel arfer, ni fydd yr MPAA yn cael ei sbarduno os:

- Ydych chi'n cymryd cyfandaliad arian parod di-dreth ac yn prynu blwydd-dal oes sy'n darparu incwm sicr am oes (sydd naill ai'n aros yn wastad neu'n cynyddu)
- Byddwch yn cymryd cyfandaliad arian parod di-dreth ac yn rhoi eich cronfa bensiwn i gynllun tynnu i lawr hyblyg, ond nad ydynt yn cymryd unrhyw incwm ohono
- Byddwch yn cymryd y rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn bach gwerth llai na £10,000 - gweler tudalen **xx** am fanylion.

Mae'r MPAA o £4,000 yn berthnasol i gyfraniadau at bensiynau cyfraniadau diffiniedig yn unig ac nid cynlluniau pensiwn budd-dal diffiniedig.

Gweler 'Newid i MPAA' ar ddechrau'r canllaw hwn.

Gweler hefyd *Lwfans Blynyddol* a *Lwfans Blynyddol Amgen*.

Lwfans Cyngor Pensiwn

Mae hwn yn eich galluogi i godi £500 o'ch cyfraniadau cronfa bensiwn/cronfeydd pensiwn diffiniedig yn ddi-dreth hyd at dair gwaith, i'w roi tuag at gostau cyngor ar bensiynau neu ymddeol. Gellid ei ddefnyddio unwaith yn unig mewn unrhyw flwyddyn dreth. Gellir ei ddefnyddio ar unrhyw oedran a'i adbrynu yn erbyn cost cyngor ariannol a reoleiddir naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. Ddim ar gael gyda chynlluniau buddiannau diffiniedig, ond gellir eu defnyddio os oes gennych bensiwn 'hybrid' sydd ag elfen cyfraniadau diffiniedig.

Ymgynghorydd ariannol a reoleiddir

Gweithiwr proffesiynol cymwys sydd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a rhaid iddo ddilyn eu rheolau wrth roi cyngor ariannol. Bydd yn argymhell cynhyrchion ariannol dim ond ar ôl ystyried eich amgylchiadau ariannol a phersonol yn eu cyfanrwydd. Os bydd y cyngor a roddant i chi yn anaddas, gallwch wneud cwyn ac os bydd angen, yn mynd â'ch achos at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Mae 'cynghorwyr ariannol annibynnol' yn edrych ar yr holl fathau o gynnyrch ariannol a'r holl ddarparwyr. Mae ymynghorwyr ariannol sy'n cynnig 'cyngor cyfyngedig' yn arbenigo mewn mathau penodol o gynnyrch ac/neu maent yn cyfyngu ar nifer y cynhyrchion darparwyr y maent yn edrych arnynt.

Pensiwn y Wladwriaeth

Taliad rheolaidd gan y llywodraeth y byddwch yn gymwys i'w gael pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer dynion a merched yn cynyddu a bydd yn cyrraedd 66 erbyn 2020. Disgwylir iddo gynyddu ymhellach i 67 erbyn 2028. Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Lwfans Blynnyddol wedi Tapro

Mae'r Lwfans Blynnyddol o £40,000 (gweler yn gynharach) yn cael ei leihau neu ei 'dapro' os yw eich 'incwm wedi'i addasu' (eich incwm blynnyddol cyn treth yn ogystal â gwerth eich cyfraniadau pensiwn chi neu unrhyw gyflogwr) dros £150,000. Yn yr achos hwn, bydd y Lwfans Blynnyddol yn lleihau £1 am bob £2 y bydd eich incwm dros £150,000,

hyd at uchafswm gostyngiad o £30,000. Yn ymarferol, mae hyn yn lleihau'r Lwfans Blynnyddol i £10,000 ar ôl i'r incwm wedi'i addasu gyrraedd £210,000. Os bydd eich incwm blynnyddol ar ôl treth, ac eithrio cyfraniadau pensiwn, yn llai na £110,000, ni fydd y gostyngiad wedi tapro yn berthnasol fel arfer.

Mae tapro tebyg yn berthnasol i'r Lwfans Blynnyddol Amgen os oes gennych bensiwn buddion wedi'u diffinio. Gweler *Lwfans Blynnyddol Amgen*.

Cyfandaliad di-dreth

Y swm o arian parod sy'n cael ei bennu gan y gyfraith y gallwch ei gymryd pan fyddwch yn ymddeol, yn ddi-dreth.

Fel arfer, hyd at chwarter (neu 25%) o'ch pensiwn ydyw, er gall rhai polisiâu hŷn eich galluogi i gymryd mwy - holwch eich darparwr polisi. Weithiau cyfeirir at hyn yn syml fel 'arian parod di-dreth'.

Cronfa bensiwn heb ei chrisialu

Cronfa bensiwn nad yw wedi'i defnyddio ar gyfer incwm ymddeol.

Cyfandaliad cronfa bensiwn heb ei chrisialu

Cyfandaliad arian parod a gymerwyd o gronfa bensiwn sydd heb dalu unrhyw incwm ymddeol. Cyfeirir at hyn yn y llyfryn hwn fel 'nifer o gyfandaliadau'. Ar gyfer pob taliad sy'n cael ei godi, bydd y 25% (chwarter) cyntaf yn ddi-dreth a bydd y gweddill yn cael ei drethu yn ôl eich cyfradd dreth briodol. Mae'n ffurfio rhan o'r opsiwn arian parod ar gyfer codi eich pensiwn.

Sut mae incwm eich pensiwn yn cael ei drethu

Bandiau Treth Incwm

Mae Treth Incwm yn cael ei rhannu'n fandiau a byddwch yn talu cyfraddau gwahanol: 20%, 40% a 45% yn seiliedig ar y bandiau hyn. Mae'r effaith ymarferol ar gyfer blwyddyn dreth 2017-18 i'w gweld yn y tabl isod.

Cyfraddau Treth Incwm 2017-18		
Incwm trethadwy	Gwerth y band treth	Cyfradd treth y rhan fwyaf o bobl*
Hyd at £11,500	£11,500	Dim treth incwm yn daladwy ('Lwfans Personol')
Rhwng £11,501 a £45,000 (£43,000 yn yr Alban**)	£33,500 (£31,500 yn yr Alban)**	20%
Rhwng £45,001 (£43,001 yn yr Alban)** a £150,000	£105,000 (£107,000 yn yr Alban)**	40%
Dros £150,000	Diderfyn dros incwm o £150,000	45%

* Pan fydd cyfanswm eich incwm yn fwy na £100,000, bydd eich Lwfans Personol yn gostwng £1 am bob £2 o'ch incwm sydd dros £100,000. Mae hyn yn golygu bod eich lwfans yn sero os bydd eich incwm yn £123,000 neu'n fwy.

** Yn 2017-18, £43,000 yw'r trothwy treth ar y gyfradd uwch yn yr Alban.

Effaith incwm pensiwn ar eich band treth

Mae incwm eich pensiwn yn cael ei ychwanegu at eich enillion/incwm arall ac yna mae'n cael ei drethu yn ôl y band treth y mae wedi'i gynnwys ynddo.

Os bydd yn gwthio eich cyfanswm incwm i fand treth newydd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth arno ar ddwy gyfradd, fel y dangosir yn yr enghraifft ar y dudalen gyferbynn.

Bydd swm y Dreth Incwm y byddwch yn ei thalu ar eich pensiwn yn dibynnu ar ba fand(iau) treth y bydd yn perthyn iddo ar ôl ei ychwanegu at eich incwm arall.

Gallai cymryd symiau mawr o arian parod o'ch pensiwn olygu y byddwch yn talu mwy o dreth a/ neu gallai effeithio ar eich hawl i fuddiannau cysylltiedig ag incwm.

Treth ar incwm eich pensiwn – enghraifft

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gall incwm pensiwn eich gwrthio i fand treth newydd o'i ychwanegu at eich enillion/incwm arall. Mae'r enghraifft hon yn tybio:

- Enillion trethadwy ac/neu incwm arall o £32,000 (e.e. unrhyw gyflog ac unrhyw gnyllion/buddsoddiad, incwm rhent trethadwy)
- Incwm pensiwn trethadwy o £15,000 (ar ôl didynnu unrhyw swm di-dreth)

Cyfanswm yr incwm trethadwy £47,000 (£32,000 + £15,000 o incwm pensiwn)			
Swm	Ffynhonnell	Cyfradd dreth berthnasol	Treth sy'n daladwy
£11,500 cyntaf	O'r rhan gyntaf o'r £32,000 o incwm nad yw'n bensiwn	Ddim yn berthnasol – Lwfans Personol	Dim treth
£33,500 nesaf	Daw £20,500 o'r incwm heb fod yn bensiwn sy'n weddill (£32,000 llai £11,500 = £20,500). Mae'r balans o £13,000 (£33,500 llai £20,500) yn dod o'r £15,000 o incwm pensiwn trethadwy	20%	£6,700
£2,000 olaf	Dyma yw'r incwm pensiwn trethadwy sy'n weddill (£15,000 llai £13,000 = £2,000)	40%	£800
Cyfanswm treth i'w dalu			£7,500*

**Os ydych chi'n byw yn yr Alban byddech yn talu £2,200 (ar gyfradd o 20%) + £1,600 (ar gyfradd o 40%) o dreth ar incwm pensiwn. £7,900 byddai cyfanswm y dreth i'w dalu.*

Treth sy'n cael ei thalu ar incwm pensiwn

£13,000 wedi'i drethu ar 20% £2,600
£2,000 wedi'i drethu ar 40% £800

Treth ar incwm pensiwn neu gyfandaliadau wedi'u hetifeddu


Mae'r un egwyddor â'r un uchod yn berthnasol pan fydd buddiolwr yn etifeddu incwm pensiwn (neu'n cymryd cyfandaliad sy'n cael ei drin fel incwm o dan y rheolau) ar ôl i chi farw.

Cysylltiadau defnyddiol

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u harian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Rydyn ni'n rhoi cyngor, awgrymiadau ac offer ar ystod eang o themâu gan gynnwys rheoli arian o ddydd i ddydd, cynilion, cynllunio'ch ymddeoliad a'ch dyfodol, yn ogystal â rhoi cymorth a chynghor am ddigwyddiadau sy'n newid bywyd megis cychwyn teulu neu golli swydd.

Am gyngor a mynediad at ein hoffer a chynllunwyr, ewch i
 moneyadviceservice.org.uk/cy

Neu ffoniwch linell Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar
0800 138 0555

Typetalk
1800 1 0300 500 5000

Cwynion ac iawndal

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567 neu 0300 123 9123
financial-ombudsman.org.uk

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

0800 678 1100 neu 020 7741 4100
fscs.org.uk



Yr Ombwdsmon Pensiynau

020 7630 2200
pensions-ombudsman.org.uk

Dod o hyd i ymgynghorydd ariannol

Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad

Mae pob un o'r ymgynghorwyr a restrir wedi'u dilysu fel cynghorwyr sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig cyngor rheoledig ar incwm ymddeoliad gan yr FCA.

 Defnyddiwch ein cyfeirlyfr ymgynghorwyr Ymddeoliad ar-lein yn  directory.moneyadviceservice.org.uk/cy

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA)

I wirio cofrestr yr AYA, neu i adrodd am hysbysebion neu hyrwyddiadau ariannol camarweiniol.

Llinell gymorth i ddefnyddwyr:
0800 111 6768
Typetalk: 1800 1 0800 111 6768
fca.org.uk/register

Gwybodaeth a chyngor ar bensiynau

I gael manylion am eich cynllun pensiwn gwaith, siaradwch gyda'ch gweinyddwr pensiynau, rheolwr pensiynau neu ymddiriedolwyr pensiynau yn eich gwaith.

Pension Wise

Gwasanaeth diduedd ac am ddim gan y llywodraeth am eich opsiynau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio.

0800 138 3944

pensionwise.gov.uk

Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau

I gael gwybodaeth ac arweiniad annibynnol am ddim ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â phensiynau a help i ddatrys cwyn neu anghydfod am pensiwn.

0300 123 1047

pensionsadvisoryservice.org.uk

GOV.UK

I gael gwybodaeth am Bensiynau'r Wladwriaeth a sut i ddod o hyd i pensiwn coll.

Cyfriflenni Pensiwn y Wladwriaeth
0345 300 0168

gov.uk/check-state-pension

Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth
0800 731 7898

gov.uk/state-pension

Deferring State Pension
0345 606 0265

gov.uk/deferring-state-pension

Y Gwasanaeth Orlhain Pensiynau
0345 600 2537

gov.uk/find-pension-contact-details

Rhagor o help?

Gallwch ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol gyda'n **Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad**

Dim ond cynghorwyr sy'n cael eu rheoleiddio sydd yn ein cyfeirlyfr – felly cewch dawelwch meddwl eich bod wedi'ch diogelu'n llwyr. Gallwch ddewis i ddelio â'ch cyngorydd wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein

Chi biau'r dewis.

Gallwch ddod o hyd i ymgynghorydd ariannol yn

 moneyadvice.service.org.uk/cyfeirlyfr
neu ffonio **0800 138 0555**



Nodiadau



**Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol**

Eich pensiwn: mae'n bryd i chi ddewis

yw un o'r canllawiau sydd ar gael o'r
Gwasanaeth Cyngtori Ariannol. I gael golwg ar
ystod lawn ein canllawiau ac i ofyn am gopi, ewch i
[📄 moneyadvice.service.org.uk/cy](https://moneyadvice.service.org.uk/cy)

Llinell Gymorth Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0300 500 5000**

Os hoffech chi gael y
canllaw hwn mewn Braille,
print bras neu ar ffurf sain,
cysylltwch â ni ar y rhifau
ffôn uchod.

*Galwadau am ddim. Mae'n bosibl y byddwn yn recordio
neu'n monitro galwadau, er mwyn ein helpu ni i gynnal a
gwella ein gwasanaeth.

Gwybodaeth yn gywir adeg argraffu (Ebrill 2017)

Ebrill 2017

© Y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol Ebrill 2017
Cyfeirnod: YPITTC0002w_W